

Cod Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw:

Ieir Bwyta ac Ieir Bridio

Drafft ymgynghori

CONSULTATION

Cynnwys

Rhagair 1	
Cyflwyniad	5
Diffiniadau	8
Argymhellion sy'n berthnasol i bob system gadw	10
Dal a Thrafod leir	
Bwyd a Dŵr	12
Iechyd	15
Archwilio	15
Gwastraff	17
Rheoli Clefydau a Bioddiogelwch Iechyd y Goes	
Monitro Iechyd a Lles yr Adar yn y Lladd-dy	19
Anffurfio	21
Tocio Pigau	22
Cytiau	23
Awyru a Thymheredd	24
Stres oherwydd Gwres	27
Gofynion Awyru Ychwanegol	28
Golau	
Sarn	29
Dwysedd Stocio a Rhyddid i Symud	30
Cyfoethogi'r Amgylchedd	32
Cyfarpar Awtomataidd a Mecanyddol	33
Cynlluniau Wrth Gefn	34
Argymhellion Ychwanegol ar gyfer Systemau Crwydro (Maes)	
Argymhellion Ychwanegol ar gyfer Stoc Bridio a *****	36
Bwyd a Dŵr	36
Ymosoddedd, Pigo Niweidiol a Chyfoethogi'r Amgylchedd	37
Anffurfio - Tocio Pigau	38
Adeiladau Cartrefu	38
Dwysedd Stocio a Rhyddid i Symud	39
Trefniadau Bridio	39
Dewis Genoteipiau	39
Cael Gwared ar Gywion ac Embryonau Dros Ben yng Ngwastraff y Ddeorfa	40
Atodiad 1	41
Atodiad 2	43
Atodiad 3	45

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod; ei ddiben yw esbonio pwrpas y Cod. Nid yw'r testun cyfreithiol mewn blychau yn y ddogfen hon chwaith yn rhan o'r Cod; ei ddiben yw tynnu'ch sylw at y ddeddfwriaeth berthnasol. Y gyfraith fel y mae ar y dyddiad y cyhoeddir neu yr ailargreffir y Cod hwn yw'r testun yn y blychau (trowch at y cefn i gael yr wybodaeth hon). Dylech gofio y gall unrhyw ofynion cyfreithiol a welwch fan hyn newid. Dylech gadarnhau eu bod yn ddatganiadau cywir o'r gyfraith fel y mae.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi Cyfarwyddeb 98/58/EC y Cyngor sy'n ymdrin ag amddiffyn anifeiliaid sy'n cael eu ffermio ar waith ac yn rhoi Cyfarwyddeb 2007/43/EC sy'n nodi'r rheolau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir a gedwir at gynhyrchu cig ar waith.

Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a ¹ Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr amodau y mae'r anifail yn cael ei fridio neu ei gadw odanynt yn cydymffurfio ag Atodlen 1.

(2) Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd ym mharagraff (1), rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir roi sylw i'w—

- (a) rhywogaeth;
- (b) gradd ei datblygiad;
- (c) ei addasiad a'i ddofiad; ac
- (d) ei anghenion corfforol ac etholegol yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol.

Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir —

(a) peidio â gofalu am yr anifail onid yw'n gyfarwydd â'r cod ymarfer perthnasol a bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw person a gyflogir ganddo, neu a gymerir i weithio ganddo, yn gofalu am yr anifail oni bai bod y person arall hwnnw—

- (i) yn gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol;
- (ii) bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a
- (iii) ei fod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y cod hwnnw.

(2) Yn yr adran hon, ystyr “cod ymarfer perthnasol” yw cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu'r cod lles

¹ [Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir \(Cymru\) 2007 \(fel y'i diwygiwyd\)](#)

statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 sy'n ymwneud â'r rhywogaeth o anifail a ffermir y mae person yn gofalu amdano.

Mae'n drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i achosi dioddefaint diangen i anifail sydd o dan reolaeth dyn. Er nad yw'n ofyn cyfreithiol i ddilyn cod, gallai peidio â'i ddilyn gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth pan gaiff rhywun ei erlyn am achosi poen ddiangen i dda byw.

Mae Adran 9(1) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan: ²

1) a person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.

Mae Adran 9(2) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include -

- (a) its need for a suitable environment,
- (b) diet addas,
- (c) cyfle i ymddwyn yn naturiol,
- (d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
- (e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.

Mae Adran 10 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

(1) If an inspector is of the opinion that a person is failing to comply with section 9(1), he may serve on the person a notice which –

- (a) states that he is of that opinion,
- (b) specifies the respects in which he considers the person is failing to comply with that provision,
- (c) specifies the steps he considers need to be taken in order to comply with the provision,
- (d) specifies a period for the taking of those steps, and
- (e) explains the effect of subsections (2) and (3).

(2) Where a notice under subsection (1) (“an improvement notice”) is served, no proceedings for an offence under section 9(1) may be instituted before the end of the period specified for the purposes of subsection (1)(d) (“the compliance period”) in respect of –

- (a) the non-compliance which gave rise to the notice, or
- (b) any continuation of that non-compliance.

(3) If the steps specified in an improvement notice are taken at any time before the end of the compliance period, no proceedings for an offence under section 9(1) may be instituted in respect of –

² [Deddf Lles Anifeiliaid 2006](#)

- (a) the non-compliance which gave rise to the notice, or
 - (b) any continuation of that non-compliance prior to the taking of the steps specified in the notice.
- (4) An inspector may extend, or further extend, the compliance period specified in an improvement notice.

Nid yw gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 2007/43/EC yn gymwys mewn deorfeydd neu lle cedwir llai na 500 o ieir neu o ieir bridio. Nid yw gofynion Cyfarwyddeb 2007/43/EC y Cyngor yn gymwys chwaith lle cedwir adar fel adar buarth/maes, organig a dan do o dan amodau nad ydynt yn ddwys. Er nad ydynt yn ofynion cyfreithiol, gall yr amodau lles ychwanegol ar gyfer ieir bwyta a fegir yn confensiynol, o'u cymhwyso i bob system gynhyrchu, helpu i ddiogelu lles adar. Gwnaeth Cyngor Ewrop argymhellion ynghylch ieir bwyta ac ieir 'creu llinach' ym 1995 ac mae'r argymhellion hynny wedi'u cynnwys yn y Cod hwn er nad ydynt yn rhan o'r ddeddfwriaeth.

Yn ystod eu harchwiliadau lles ar y fferm, bydd archwilwyr yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac Awdurdodau Lleol yn edrych a yw'r ffermwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac â'r Cod. Bydd yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a welwch yn y blychau yn y Cod hwn sy'n ymwneud â lles anifail. Mewn achosion sy'n mynd i'r llys, byddai p'un a ydych wedi cydymffurfio neu beidio â'r Cod yn cael ei ddefnyddio i helpu i benderfynu a ydych yn euog neu beidio.

Mae yna ddeddfwriaeth a gofynion eraill nad ydyn nhw'n ymwneud â lles anifeiliaid ac nad ydyn nhw'n rhan o'r Cod y dylech fod yn gwybod amdany'n nhw a chydymffurfio â nhw.

Mae Adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn dweud:

- 4 (1) A person commits an offence if—
- (a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
 - (b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,
 - (c) the animal is a protected animal, and
 - (d) the suffering is unnecessary.
- (2) A person commits an offence if—
- (a) he is responsible for an animal,
 - (b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,
 - (c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and
 - (d) the suffering is unnecessary.

- (3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include—
- (a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;
 - (b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;
 - (c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as—
 - (i) the purpose of benefiting the animal, or
 - (ii) the purpose of protecting a person, property or another animal;
 - (d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;
 - (e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

CONSULTATION

Cyflwyniad

1. Bwriad y Cod hwn yw annog pawb sy'n gofalu am ieir bwyta ac ieir bridio i gadw at safonau gofal uchel. Heb arfer crefft ffermio da, ni fydd byth modd diogelu lles anifeiliaid. Bydd dilyn yr argymhellion hyn yn helpu'r rheini sy'n cadw ieir i gynnal y safonau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Dylai'r rheini sy'n gofalu am yr ieir gadw at y gofynion canlynol:

- Cynllunio a rheoli gofalgar a chyfrifol;
 - Ffermio medrus, gwybodus a chydwybodol;
 - Dylunio amgylchedd addas;
 - Trafod a chludo ystyriol;- a lladd heb greulondeb.
2. Ystyrir lles ieir bwyta ac ieir bridio o fewn fframwaith a ddatblygwyd gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC), y cyfeirir ato fel y "Pum Rhyddid". Y pum rhyddid yw'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer asesu lles anifeiliaid o fewn unrhyw system, ynghyd â'r camau sydd eu hangen i ddiogelu'u lles o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithiol. Dylen nhw gael eu hystyried ar y cyd â thair elfen hanfodol FAWC o grefft ffermio da byw.

Dyma'r Pum Rhyddid:

- 1 **RHYDDID RHAG NEWYN A SYCHED** – drwy allu mynd yn hwylus at ddŵr ffres a chael deiet sy'n cynnal iechyd ac egni;
- 2 **RHYDDID RHAG ANGHYSUR** – drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus;
- 3 **RHYDDID RHAG POEN, ANAF NEU GLEFYD** – drwy eu hatal neu drwy gynnal diagnosis a rhoi triniaeth yn gyflym;
- 4 **RHYDDID I YMDDWYN YN NORMAL** – drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid eraill o'r un math; a
- 5 **RHYDDID RHAG OFN A GOFID** – drwy ddarparu amodau a'u trin mewn ffordd sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

Tair elfen hanfodol crefft ffermio da byw:

- 1 **GWYBOD AM HWSMONAETH ANIFEILIAID.** Gwybodaeth dda am fioleg anifeiliaid fferm a'r gofal sydd eu hangen arnyn nhw, gan gynnwys sut orau i ddiwallu eu hanghenion ym mhob sefyllfa.
 - 2 **SGILIAU HWSMONAETH** Prawf bod gennych sgiliau arsylwi ar anifeiliaid a gofalu amdany'n nhw a sgiliau eu trafod a'u trin a darganfod a datrys problemau.
 - 3 **RHINWEDDAU PERSONOL** Yn deall anifeiliaid ac ag empathi â nhw, ymroddiad ac amynedd.
3. Mae'r Cod hwn a'i argymhellion, yn ymwneud â phob rhan o'r broses cynhyrchu ieir bwyta ac ieir bridio o dan bob system hwsmona. At ddibenion y cod hwn, ystyr "ceidwad" yw perchennog yr adar neu'r person sy'n gyfrifol am ofalu amdany'n nhw.
4. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r darpariaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid fferm ar gyfer gwahanol fathau o systemau cynhyrchu ieir bwyta.

Math o system cynhyrchu ieir bwyta	Deddfwriaeth yng Nghymru		
	Deddf Lles Anifeiliaid d 2006	Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1	Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5A
Daliadau â llai na 500 o ieir	✓	✓	-
Heidiau bridio ieir bwyta	✓	✓	-
Deorfeydd	✓	✓	-
>500 o adar mewn system gonfensiynol, dwysedd stocio o hyd at 33kg/m ²	✓	✓	✓
>500 o adar mewn system gonfensiynol, dwysedd stocio o fwy na 33kg/m ² hyd at 39kg/m ²	✓	✓	✓
^a Ieir buarth, dwysedd stocio hyd at 27.5kg/m ²	✓	✓	-
^a Ieir dan do system llai dwys. Dwysedd stocio hyd at 25kg/m ² .	✓	✓	-

Deddfwriaeth yng Nghymru			
Math o system cynhyrchu ieir bwyta	Deddf Lles Anifeiliaid 2006	Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1	Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5A
^b leir o dan system organig, dwysedd stocio o hyd at 21kg/m ²	✓	✓	-

^a fel y cyfeirir atynt ym mhwyntiau (b), (c), (d) (e) Atodiad V o Reoliad y Comisiwn (EC) 543/2008 sy'n nodi rheolau manwl o ran safonau marchnata cig dofednod at ddiben cymhwyso Rheoliad Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (EU) 1308/2013

^b yn unol â Rheoliadau Organig perthnasol yr UE - Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 834/2007 a Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 889/2008.

5. Ni ddylai neb gadw na sefydlu uned ieir bwyta nac ieir bridio onid oes modd diogelu lles yr holl adar. Gellir gwneud hyn drwy sicrhau bod yr adeiladau a'r offer, a medrau a gallu ceidwaid heidiau yn briodol ar gyfer y system hwsmonaeth ac ar gyfer nifer yr adar sydd i gael eu cadw.
6. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ar les anifeiliaid yn gymwys i berchenogion yn ogystal ag i unrhyw berson sy'n gofalu am yr adar ar eu rhan, ble bynnag y mae'r adar yn cael eu cadw. Gallai protocol ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pob parti yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau am les yr ieir. Er hynny, bydd yn dal gofyn cadw at y rhwymedigaethau cyfreithiol.
7. Dylech roi sylw i ystyriaethau iechyd a lles yn ogystal â chynhyrchiant wrth ddewis y straen o iâr at ddiben neu system gynhyrchu benodol. Dylai'ch ieir bwyta darddu o raglenni bridio cytbwys sy'n ystyried pob agwedd ar iechyd, lles a chynhyrchiant. Dylid sicrhau bod pob penderfyniad rheoli a system gynhyrchu yn hyrwyddo iechyd, lles a chynhyrchiant yr ieir.
8. Mae'r gofynion cyfreithiol i'w gweld yn y blychau testun. **Mae'r cod hwn yn gymwys yng Nghymru yn unig a'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ei gyhoeddi.**

Diffiniadau

9. Dyma ddiffiniadau at ddiben y Cod hwn: Mae termau â seren (*) wedi'u codi o'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r lleill wedi'u cynnwys i esbonio pwrpas y Cod.

Ystyr '**anffurfio**' yw triniaeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif neu strwythur esgyrn yr anifail nad yw'n rhan o driniaeth feddygol;

Ystyr '**ceidwad**' (*) yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid neu â gofal ohonynt, p'un ai ar sail barhaol neu dros dro;

Ystyr '**cwt**' yw'r adeilad mewn daliad lle mae haid o ieir yn cael eu cadw;

Ystyr '**cyfanswm y marwolaethau**' yw cyfanswm yr adar fu farw neu a gafodd eu difa yn ystod cyfnod magu llawn yr haid, wedi'i rannu wrth nifer gwreiddiol yr adar a osodwyd y diwrnod cyntaf, wedi'i luosi wrth 100;

Ystyr '**cyfradd farwolaeth ddyddiol**' (*) ieir a fegir yn gonfensiynol yw nifer yr ieir mewn cwt sydd wedi marw ar yr un diwrnod gan gynnwys y rheini a gafodd eu difa naill ai oherwydd afiechyd neu am resymau eraill, wedi ei rannu wrth nifer yr ieir sydd yn y cwt ar y diwrnod hwnnw, a'i luosi wrth 100;

Ystyr '**cyfradd farwolaeth ddyddiol gronnu**' (*) yw cyfanswm y cyfraddau marwolaethau dyddiol;

Ystyr '**daliad**' yw'r safle cynhyrchu lle mae'r ieir yn cael eu cadw;

Ystyr '**dwysedd stocio**' yw cyfanswm pwysau byw'r ieir sy'n bresennol mewn cwt neu ddaliad yr un pryd fesul metr sgwâr o'r lle sydd ar gael iddynt ei ddefnyddio;

Ystyr '**haid**' yw grŵp o ieir sy'n cael eu gosod mewn cwt neu ddaliad sydd yn neu wedi bod yn bresennol yn y cwt hwn ar yr un pryd;

Ystyr '**iâr fridio**' yw anifail o'r rhywogaeth *Gallus gallus* y defnyddir ei chywion naill ai i fridio cywion eraill neu i gynhyrchu cig.

Ystyr '**ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol**' yw ieir bwyta ac eithrio'r rheini (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007):

- (a) a fagwyd yn organig yn unol â rheoliadau organig yr UE - Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 a Rheoliad y Comisiwn (EC) 889/2008.
- (b) mewn deorfeydd;
- (c) sydd ar ddaliadau â llai na 500 o ieir bwyta neu ag ieir o stociau bridio yn unig;

(d) y gellir defnyddio'r termau "megir yn helaeth mewn cytiau dan do", "iâr fuarth", "iâr fuarth - dull traddodiadol" neu "iâr fuarth - dull hollol rydd" i'w disgrifio yn unol ag ystyr pwyntiau (b), (c), (d) neu (e) yn Atodiad V Rheoliad y Comisiwn 543/2008/EC sy'n nodi'r rheolau manwl o ran safonau marchnata cig dofednod ar gyfer rhoi Rheoliad Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (EU) 1308/2013 ar waith; neu

Ystyr '**ieir bwyta**' yw anifail o'r rhywogaeth *Gallus gallus* a gedwir i gynhyrchu cig;

Ystyr '**laparosgopi**' yw archwilio ceudod yr abdomen ag offeryn o'r enw laparosgopi;

Ystyr '**lle y gellir ei ddefnyddio**' (*) ar gyfer ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol yw'r lle o dan sarn (gwasarn/llaesodr) y gall ieir fynd iddo ar unrhyw adeg.

Ystyr '**llosg cymal yr egwyd (hock burns)**' yw'r marciau a geir ar gymalau uwch coes yr iâr, wedi'u hachosi gan yr amonia yn nhail ieir eraill.

Ystyr '**pigo sy'n peri niwed**' yw pan fydd aderyn yn pigo adar eraill fel ymddygiad annormal. Mae'n cynnwys pigo addfwyn a ffyrnig ar blu, pigo fentiau a phigo canibalistig;

Ystyr '**pododermatitis**' yw unrhyw chwydd ar fysedd traed neu wadn troed iâr.

Ystyr '**stoc creu llinach (Grandparent stock)**' yw anifail o'r rhywogaeth *Gallus gallus* y mae ei gywion wedi cael eu defnyddio i gynhyrchu cywion;

Ystyr '**stoc rhieni**' yw anifail o'r rhywogaeth *Gallus gallus* y mae ei gywion yn ieir dodwy neu'n ieir bwyta;

Argymhellion ar gyfer pob System Hwsmonaeth

Crefft Ffermio Da Byw a Staffio

Mae Atodlen 1 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

1. Rhaid i anifeiliaid dderbyn gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.

Mae Atodlen 7 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

7. Rhaid cadw cofnod:

- (a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roir i anifeiliaid; a
- (b) o nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o'r anifeiliaid

Mae Atodlen 1, paragraff 8 yn datgan bod yn rhaid cadw'r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad, a rhaid ei roi ar gael i arolygydd os gofynnir amdano.

Mae Paragraff 13 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010 yn datgan:³

Rhaid i geidwad gadw cofnod o bob cwt

- (a) o nifer yr ieir a gyflwynir iddo;
- (b) y lle y gellir ei ddefnyddio
- (c) y groesryw neu frîd yr ieir (os yn hysbys);
- (ch) o nifer yr ieir a gafwyd yn farw, gan nodi achosion y farwolaeth (os yw'n hysbys), ynghyd â nifer yr ieir a gafodd eu difa gyda'r achos, ar bob arolygiad;
- (d) o nifer yr ieir sydd ar ôl yn yr haid wedi symud ieir ymaith i'w gwerthu neu i'w cigyddu.

(2) Rhaid -

- (a) dal gafaél ar y cofnod am o leiaf dair blynedd, a
- (b) ei fod ar gael i arolygydd ei weld o ofyn amdano.

Mae Paragraff 2 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010 yn datgan:

2 (1) Rhaid i geidwad ddal tystysgrif a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion Erthygl 4(3) neu 4 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2007/43/EC(1) (tystysgrifau cwblhau cyrsiau hyfforddiant neu brofiad cyfatebol).⁴

³ [Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir \(Cymru\) \(Diwygio\) 2010](#)

⁴ [Cyfarwyddeb y Cyngor 2007/43/EC](#)

(2) Rhaid i Weinidogion, o bryd i'w gilydd ac mewn modd a ystyrir ganddynt yn briodol, gyhoeddi rhestr o dystysgrifau a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-baragraff (1).

10. Mae'n hanfodol fod bersonél cymwys a brwdfrydig yn cael eu cyflogi i wneud pob tasg sy'n angenrheidiol. Dylai'r staff gael eu rheoli a'u goruchwyllo'n dda, fod yn hollol gyfarwydd â'r tasgau y bydd yn ofynnol iddynt eu gwneud ac yn gymwys wrth ddefnyddio unrhyw offer. Gweler atodiad 2 am gyngor ar fodiwlau hyfforddi pasbort dofednod Prydain.
11. Dylai ceidwaid ieir bwyta ac adar bridio a'r rheini sy'n trafod adar mewn deorfeydd, gan gynnwys y rheini a gyflogir gan gontractwyr, gael hyfforddiant priodol cyn cael bod yn gyfrifol am anifeiliaid. Mae hyn yn gofyn am fagu sgiliau penodol y medrir eu meithrin drwy weithio ar y fferm, gweithio gyda pherson profiadol, neu drwy ddilyn cwrs sy'n cael ei gynnis gan ddarparwydd hyfforddiant addas. Dylai pob ceidwad brofi ei fod yn gymwys ac yn meddu ar ddealltwriaeth cyn cael bod yn gyfrifol am adar. Dylai hyfforddiant barhau drwy gydol y cyfnod cyflogaeth, a dylid mynd ar gyrsiau gloewi addas yn gyson. Os yn bosibl, dylai'r hyfforddiant arwain at gydnabyddiaeth ffurfiol o gymhwysedd.
12. Dylai pob ceidwad ddangos ei fod yn deall anghenion lles a bioleg sylfaenol yr adar. Dylai ceidwad ddangos ei fod yn gallu diogelu'r adar rhag yr holl amodau y gellir eu rhagweld, cyn cael bod yn gyfrifol am adar. Bydd gan geidwad da agwedd drugarog a thosturiol, y gallu i ragweld ac osgoi problemau lles posibl, a'r gallu i adnabod y problemau lles hynny sydd yn codi ac ymateb iddynt yn brydlon. Dylai o leiaf fedru:
 - gweld a yw'r adar mewn cyflwr iechyd da neu beidio;
 - deall arwyddocâd newid yn ymddygiad yr adar
 - gwerthfawrogi pwysigrwydd sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn addas i iechyd a lles yr adar.
13. Fe welwch wybodaeth am ofynion hyfforddi a chymwysterau penodol ar gyfer ceidwaid sy'n gofalu am heidiau o fwy na 500 o adar yn atodiad 3:

Dal a Thrafod Ieir

14. Mae angen lefel dda o allu i ddal a thrafod adar heb eu hanafu na'u rhoi o dan stres. Dim ond pobl gymwys ddylai ceisio eu dal a'u trafod h.y. y rheini sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol i wneud y dasg neu sydd wedi cael arweiniad a chyfarwyddiadau clir gan y perchennog neu'r ceidwad. Dylid neilltuo'n glir pwy sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith.
15. Efallai bod mantais i les yr adar o ddefnyddio systemau mecanyddol ar gyfer casglu adar. Dim ond systemau y mae'r gwneuthurwr wedi dangos eu bod yn foddhaol o safbwynt iechyd a lles yr adar ddylai gael eu defnyddio. Rhaid i'r sawl sy'n eu gweithio fod yn gymwys i'w defnyddio a chadw golwg am arwyddion o stres neu o fygu, sef yr un ystyriaethau ag wrth eu dal a'u trafod â llaw. Cyn defnyddio systemau o'r fath, dylid

asesu'r risg i iechyd a lles yr adar a'u cadw mor fach â phosib cyn eu defnyddio'n gyffredinol ar raddfa fasnachol.

16. Rhaid wrth y safonau uchaf wrth ddal a thrafod yr adar, waeth beth yw gwerth economaidd posib yr adar. Dylid trin ieir bwyta dros ben gan gynnwys ieir bridio sydd wedi dod at ddiwedd eu hoes dodwy cyn eu difa yr un mor drugarog â'r rheini y bwriedir eu cadw neu eu gwerthu.
17. Dylid dal a thrafod yr adar mewn ffordd dawel a hyderus, gan ofalu osgoi peri gofid nac ymaflyd â'r aderyn rhag ei gleisio neu ei anafu. Dylid osgoi creu panig ymhlith yr adar rhag iddyn nhw gael eu hanafu. Dylid eu dal mewn golau isel neu las rhag eu dychryn.
18. Rhaid dal yr adar â gofal a dylid eu codi'n syth i'r gafael cludo. Yn ddefnyddiol, dylech eu dal trwy gydio ynddynt o amgylch y corff gan osgoi eu troi ben i waered. Os oes yn rhaid eu dal wrth eu coesau, ceisiwch eu dal wrth y ddwy goes. Os oes angen cludo'r aderyn, dylid gwneud hynny naill ai trwy gydio ynddo am ei gorff neu gerfydd y ddwy goes. Peidiwch byth â chludo aderyn gerfydd ei wddf neu ei adenydd.
19. Wrth symud adar bridio i'r cyfleusterau dodwy, byddwch yn ofalus wrth eu codi o'r crât neu wrth eu harllwys nhw o gynhwysydd di-glawr.

Bwydo a dyfrio

Mae paragraffau 22-27 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) am fwyd, dŵr a sylweddau eraill yn datgan:

22. Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachus sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn swmp digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i fodloni eu hanghenion maethol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.
23. Rhaid peidio â darparu i anifeiliaid fwyd neu hylif sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a allai beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt, a rhaid darparu bwyd a hylif ar eu cyfer mewn modd nad yw'n peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.
24. Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fo milfeddyg wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.
25. Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad addas o ddwr a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu ei angen i yfed digon o hylifau trwy ddulliau eraill.
26. Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dŵr neu effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

Ni chaniateir rhoi i anifeiliaid unrhyw sylwedd arall, ac eithrio rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffylactig neu at ddibenion triniaeth söotechnegol, oni ddangoswyd mewn astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu trwy

ymarfer sefydledig nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

(2) Yn is-baragraff (1), mae i'r ymadrodd "triniaeth söotechnegol" yr ystyr a roddir i "zootechnical treatment" yn Erthygl 1(2)(c) o Gyfarwyddeb 96/22/EEC(1) ar wahardd defnyddio sylweddau penodol sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a beta-agonistiaid mewn ffermio da byw.⁵

Mae paragraffau 6 o Atodlen 5A Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

6.-(1) Rhaid i ddalwyr diod fod wedi'u lleoli a bod yn cael eu cynnal a'u cadw yn y fath fodd fel mai'r ychydig lleiaf sy'n gorlifo ohonynt.

(2) Rhaid i fwyd anifeiliaid fod ar gael naill ai yn barhaus neu ar adegau bwydo.

(3) Rhaid peidio â rhoi'r gorau i fwydo'r ieir â bwyd anifeiliaid fwy na 12 awr cyn amser disgwylid eu cigydd.

20. Rhaid i bob aderyn allu cael at fwyd bob dydd. Pan fydd ceidwad yn dod ag adar i le newydd, dylai wneud yn siŵr fod yr adar yn gallu cael hyd i'r bwyd a dŵr ac yn gallu cael atyn nhw.
21. Rhag i'r ieir gael bwyd a dŵr hen neu halogedig, dylech eu newid yn rheolaidd. Gofalwch fod gennych drefniadau ar gyfer cyflenwi dŵr ar adegau o rew.
22. Ar gyfer systemau dan do, ni ddylai unrhyw aderyn orfod cerdded mwy na 4 metr i gyrraedd bwyd a diod. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, fel mewn rhai systemau cynhyrchu awyr agored, bydd angen i'r adar gerdded mwy na 4 metr. O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid sicrhau bod y dwysedd stocio, y lle i yfed a bwydo a gwasgariad y dalwyr bwyd a dŵr yn caniatáu i'r adar allu cerdded mwy na 4 metr.
23. Peidiwch â newid y math o fwyd, ei swmp a'i gynhwysion yn sydyn. Os ydych am newid y ddeiet, dylech wneud hynny'n raddol.
24. Dylech osgoi bwydydd cyfansawdd sydd wedi'u paratoi ar gyfer rhywogaethau eraill gan fod rhai sylweddau'n wenwyn i adar.
25. Ni ddylai ieir bwyta gael bod heb fwyd am fwy na 12 awr cyn eu lladd neu cyn eu symud i fferm newydd. Rhaid i'r cyfnod hwn o 12 awr gynnwys yr amser a gymerir i ddal yr adar, eu llwytho, eu cludo, eu crynhoi a'u dadlwytho cyn eu lladd. Cyn eu cludo, dylai dŵr fod ar gael iddyn nhw hyd at ddechrau'r broses o'u dal. Dylai cludwyr ieir gadw'r daith mor fyr â phosib a dechrau'r daith yn ddi-oed.
26. Dylid gosod mesuryddion dŵr ym mhob cwt lle medrir, er mwyn monitro faint o ddŵr a yfir bob dydd. Mae cofnod dyddiol o faint o ddŵr a

⁵ [Cyfarwyddeb 96/22/EEC](#)

ddefnyddir yn gallu rhoi rhybudd o broblem bosib. Mae mesurydd dŵr felly yn erfyn rheoli angenrheidiol.

27. Dylid sicrhau bod yr ieir yn gallu cael at ddŵr tra bydd golau a bod digon o ddalwyr yfed sydd wedi'u cynnal yn briodol, eu dosbarthu'n dda a'u haddasu i'r uchder a'r pwysedd priodol. Mewn cwt hir ac yn y rheini sydd â llawr ar oleddf, dylid gosod rheolyddion pwysedd dŵr rhag i ddŵr sarnu a gollwng.
28. Bydd dŵr sy'n gollwng neu'n sarnu o ddalwyr dŵr yn ychwanegu'n fawr at leithedd y sarn (gwasarn/llaesodr) gan gael effaith wael ar ansawdd y sarn ac yn y pen draw ar iechyd yr adar. Dylech drwsio gollyngiadau cyn gynted ag y medrwch. Mewn manau sydd wedi'u gwlychu'n fawr, dylech osod sarn newydd a chynyddu lefel yr awyru a'r gwres er mwyn cael gwared ar y gwlybanaeth ddiangen. Fodd bynnag, dylech chwilio am atebion mwy tymor hir a holi arbenigwr am ei farn os oes angen.
29. Mae'n bwysig er mwyn magu ieir bwyta a bridio iach eu bod yn cael deiet addas a chytbwys sydd wedi'i llunio'n benodol ar gyfer oed a straen yr aderyn. Yn ogystal â rhoi sylw i gyngor milfeddyg, dylid dilyn y cyngor a roddir gan y bridwr a'r cwmni sy'n cyflenwi'r adar ar anghenion maeth straen yr aderyn, hynny i osgoi cyflyrau fel ascites ("bol dŵr"), y syndrom marwolaeth sydyn a chloffni.
30. Er bod yr amgylchedd a geneteg yn ystyriaethau wrth geisio rheoli'r cyflyrau a restrir yn y paragraff uchod, gellir lleihau nifer yr achosion o'r cyflyrau hynny trwy reoli lefelau maeth yn ofalus heb effeithio ar bwysau terfynol y corff. Fodd bynnag, cyn newid symiau ac ansawdd y ddeiet, dylech holi arbenigwyr maeth a milfeddygon.

Iechyd

Archwilio

Mae paragraff 2-3 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

2.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle mae eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio unwaith y dydd o leiaf, i wirio eu bod mewn cyflwr o lesiant.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle nad yw eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio ar ysbeidiau digonol i osgoi unrhyw ddiodefaint.

3. Pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad rhaid cael digon o oleuadau (naill ai'n sefydlog neu'n symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

Mae Paragraff 11 o Ran 2 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

11.-(1) Rhaid i geidwad sicrhau bod yr holl ieir a gedwir ar y daliad yn cael eu harolygu o leiaf ddwywaith y dydd.

(2) Rhaid talu sylw arbennig i arwyddion sy'n dynodi gostyngiad yn safon iechyd neu les yr anifeiliaid.

(3) Rhaid i ieir sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol neu sy'n dangos arwyddion amlwg o afiechyd (gan gynnwys y rheini sy'n cael anhawster i gerdded, rhai â dropsi'r bol difrifol neu rhai sydd â chamffurfiadau difrifol), ac sy'n debygol o ddiodef, gael triniaeth briodol neu gael eu difa'n syth.

31. Dylid datblygu cynllun iechyd a lles ar y cyd â'r milfeddyg sy'n goruchwyllo a'i roi ar waith ar y fferm. Dylid nodi ynddo weithgareddau iechyd a hwsmonaeth ar gyfer cylch cynhyrchu pob math o gwt a ddefnyddir. Dylai yn ogystal bennu gweithdrefnau a mesurau rheoli sy'n lleihau'r risg o haint a niwed.

32. Dylai'r cynllun ddisgrifio'r trefniadau bioddigolwch ar gyfer staff ac offer, a dylai esbonio'n fanwl y trefniadau hylendid a diheintio. Gallai'r cynllun fod ar ffurf dogfen weithredu safonol. Dylid datblygu'r cynllun gan ddefnyddio cyngor milfeddygol priodol, ei adolygu yn unol â dangosyddion perfformiad a'i ddiweddarau bob blwyddyn.

Cewch ragor o gyngor am gynlluniau iechyd a lles trwy Cyswllt Ffermio - gweler Atodiad 2.

33. I helpu i osgoi problemau lles, dylid archwilio pob haid yn systematig o leiaf ddwywaith y dydd gyda bwllch priodol o amser rhwng pob archwiliad.

Dylid archwilio adar ifanc, yn nyddiau cyntaf eu bywyd, o leiaf deirgwaith y dydd.

34. Wrth archwilio haid, dylech asesu cyflwr eu cyrff, unrhyw wahaniaethau yn nhyfiant yr adar yn yr haid, eu symudiad, eu cerddediad, eu hanadlu, cyflwr y pluf, arwyddion eu bod yn pigo pennau neu fentiau, cyflwr y tail, llygaid, croen, pigau, coesau, traed a chrafangau, a lle bo'n briodol, cyflwr y grib a'r dagell. Gallai unrhyw annormaledd fod yn arwydd o broblem a dylid rhoi sylw iddi ar unwaith, a chymryd camau i'w datrys os oes angen.
35. Gellid cynnal archwiliadau iechyd a lles yn ystod ymweliadau eraill â chytiau'r ieir, ond dylid cynnal pob archwiliad fel archwiliad ar wahân a phenodol.
36. Er mwyn sicrhau bod yr archwiliad yn un trylwyr, dylai'r ceidwad gerdded o fewn tair metr i bob aderyn a'i annog i symud, ond gan ofalu peidio â chodi ofn arno â symudiad, sŵn neu newidiad sydyn ac anghyfarwydd yn lefel y golau. Yr amcan yw pasio heibio'r adar yn ddigon agos i allu eu gweld yn glir a'u hysgogi i symud oddi wrthyh. Dylai hynny fod yn ddigon ichi allu gweld a oes adar sâl, clwyfedig neu wan. Dylech gymryd adar o'r fath o'r haid ar unwaith ichi gael eu trin neu eu lladd yn ddi-boen.
37. Dylai pob ceidwad benderfynu ymlaen llaw pa gamau y dylai eu cymryd pe bai'n gweld problemau a sicrhau bod cyngor milfeddyg neu arbenigwr arall ar gael os oes angen.
38. Dylai lefelau'r goleuni yn ystod yr archwiliad fod yn ddigon ichi allu gweld yr holl adar ym mhob rhan o'r cwt.
39. Er na fydd hi wastad yn bosib archwilio pob aderyn yn unigol yn ystod archwiliad cyffredin, dylech allu cael argraff dda o gyflwr yr haid bob tro. Os nad yw'r adar yn cael eu bwydo ar system ad lib, mae amserau bwydo yn amser neilltuol o dda i gynnal archwiliad gan y bydd adar â phroblem yn amlwg oherwydd eu harafwch i fwydo.
40. Dylai unrhyw adar sy'n ei chael hi'n arbennig o anodd cerdded neu gyrraedd bwyd a diod, sy'n dioddef o ascites difrifol, camffurfiadau neu anafiadau neu drawiadau cas neu sydd ar fin marw gael eu difa heb greulondeb ar unwaith oni bai bod modd eu trin a'u bod yn debygol o wella heb ddiodde'n ddiangen. Dylid codi adar marw heb oedi.
41. Pan leddir aderyn ar safle'r ddeorfa, dylid gwneud hynny gan ddefnyddio dull a ganiateir yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 ar y cyd â Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1099/2009 ar amddiffyn anifeiliaid adeg eu lladd. Dylid cynnwys trefniadau neu brotocolau ysgrifenedig ar gyfer lladd heb greulondeb yng nghynllun iechyd a lles y fferm. Am ragor o wybodaeth, trwch at ganllawiau'r diwydiant.

Gwastraff

42. Bydd llawer o'r gwastraff a ddaw yn sgil cadw leir Bwyta yn cael ei gategoreiddio fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae sawl opsiwn ar gyfer defnyddio a chael gwared ar wastraff gan ddibynnu ar y math o wastraff e.e. carcassau adar a gwastraff deorfa.

Bydd angen i unrhyw berson sy'n trafod sgil-gynhyrchion anifeiliaid gydymffurfio â Rheoliad (EC) rhif 1069/2009 a Rheoliad y Comisiwn (EU) rhif 142/2011 sy'n ei rhoi ar waith a Rheoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2014.

Rheoli Clefydau a Bioddiogelwch

Mae Paragraffau 5-6 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

5. Rhaid gofalu yn briodol ac yn ddi-oed am unrhyw anifeiliaid sy'n ymddangos yn sâl neu wedi eu hanafu; pan nad ydynt yn ymateb i'r cyfryw ofal, rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted ag y bo modd.
6. Os oes angen, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych, lle bo hynny'n briodol.

Mae Paragraff 12 o Ran 2 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

12. Wedi diboblogi cwt yn derfynol a chyn cyflwyno haid newydd—
- (a) rhaid glanhau'n llwyr a diheintio unrhyw ran o gwt, ac unrhyw gyfarpar neu declyn a fu mewn cysylltiad â'r ieir; a
- (b) rhaid clirio ymaith bob llaesodr a gosod llaesodr lân.

43. Mae llygaid clir a disglair, sioncrwydd, osgo, symudiadau cryf pan aflonyddir arni, bwydo ac yfed brwd, canu a chlochdar, cynhyrchu wyau'n briodol yn achos ieir bridio a chroen, cymal yr egwyd a thraed glân ac iach i gyd yn arwyddion pwysig o iechyd da. Gallai unrhyw annormaledd fod yn arwydd o broblem a dylid rhoi sylw iddi ar unwaith.
44. Gallai newid o ran faint o ddŵr a yfir, amharodrwydd i fwyta, newid yn ansawdd y sarn ac yn ymddygiad cyffredinol yr haid i gyd fod yn arwydd o haint. Dylech archwilio newid amlwg yn y defnydd o ddŵr. Dylech ofyn am sylw milfeddyg yn fuan mewn unrhyw achos o glefyd er mwyn cael gwybod beth sydd wedi'i achosi a pha gamau i'w cymryd.
45. Dylech gymryd camau i reoli clefydau a achosir gan baraseitiaid trwy ddilyn yr arferion cartrefu a rheoli priodol a thrwy ddefnyddio paraseitleiddiaid os oes angen. Mae'n arbennig o bwysig rhoi mesurau ar

waith i rwystro'r gwiddonyn coch rhag cydio mewn heidiau o ieir bridio; ni ddylai'r mesurau niweidio'r adar.

46. Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â'r adar gadw at drefniadau hylendid a diheintio llym. Dylid carthu sarn brwnt/budr o'r cwt a'r safle cyn ailstocio'r cwt rhag i unrhyw haint oroesi a heintio'r haid nesaf. Dylid yn gyntaf sychlanhau'r cwt i godi deunydd organig, ac yna ei olchi a'i ddiheintio. Os gellir, dylid rheoli'r safle fel bod yr holl gytiau'n wag yr un pryd er mwyn gallu eu glanhau, eu diheintio a'u dibryfedu'n effeithiol. Bydd cyfnodau o "bopeth i mewn a phopeth allan" lle ceir cyfnodau heb adar yn creu bwloch heb glefydau. Lle nad yw'n bosib osgoi cadw heidiau o oed gwahanol ar y safle, dylid dilyn trefn reolaidd, gan roi sylw i'r heidiau ifancaf yn gyntaf a'r hynaf yn olaf.
47. Wrth gynllunio safleoedd newydd, dylid ystyried eu lleoli mor bell â phosib o safleoedd sy'n bod eisoes er mwyn gwella bioddiogelwch. Canllaw defnyddiol yw'r 3km a argymhellir fel radiws Parth Gwarchod ar gyfer rheoli clefydau hysbysadwy fel ffliw'r adar. Dylid ystyried hefyd y pellter rhwng cytiau ar yr un safle, yn ogystal â pha mor agos y ceir heidiau o adar gwyllt.

Iechyd y Goes

48. Mae cloffni ac anhwylderau ar y coesau yn broblem ddifrifol i les ieir bwytia. Gall llawer o bethau eu hachosi gan gynnwys diffygion maeth, heintiau microbaidd a geneteg. Yn yr iâr fasnachol safonol sy'n cael ei chadw nes ei bod yn chwe wythnos oed, barnwyd bod y broblem yn gysylltiedig â theithi'r straen i dyfu'n gyflym. Mae data'n bod sy'n dangos nad yw mathau sy'n tyfu'n arafach yn cael cymaint o broblem â'u coesau. Gall diffygion maeth ac anghydbwysedd o ran calsiwm, ffosfforws a fitamin D arwain at fwy o anffurfiau yn yr esgyrn a chloffni. Mae haint yn yr esgyrn a'r cymalau'n achosi cloffni, felly mae'n hanfodol atal a rheoli clefydau feirol a bacteriaidd a chadw'r sarn yn lân.
49. Dylai ceidwaid gadw golwg ddyddiol am arwyddion o gloffni, gwendid yn y coesau neu gerddediad anarferol. Cyn gynted ag y gwelwch aderyn nad yw'n gallu symud na chael hyd i fwyd a dŵr yn rhwydd, dylech ei ladd heb greulondeb oni bai bod modd ei drin a'i fod yn debygol o wella heb ddiode'n ddiangen. Wrth gofnodi'r nifer sy'n marw ac sy'n cael eu difa, byddai'n ddefnyddiol cofnodi'r rhesymau er mwyn ichi allu monitro cloffni o fewn a rhwng heidiau. Gall cloffni gynyddu at ddiwedd y cylch cynhyrchu a dylai'r ceidwad ystyried yn ofalus a yw'r adar cloff yn gyfreithiol ffit i deithio.
50. Os gwelwch y cloffni'n cynyddu, rhaid asesu'ch arferion rheoli a hwsmona ar unwaith. Dylech roi newidiadau ar waith cyn gynted ag y medrwch, hynny lle medrir, ar ôl clywed barn milfeddyg neu gyngor technegol cyflenwr y brid.

51. Os ceir problem â rheoli'r sarn ac iechyd adar, gallai'r ceidwad ddewis magu ei ieir bwyta yn is na'u potensial mwyaf trwy newid cyfansoddiad y bwyd, y drefn fwydo a strwythur y bwyd. Dylid gwneud hynny ar ôl cael barn milfeddyg a/neu dechnegol. Dylech gadw golwg hefyd ar effeithiau newid y ddeiet ar gyflwr y sarn.
52. Gallai cloffni ddatblygu o ganlyniad i heintiau yn haid y rhieni neu'r ddeorfa. Dylid cadw'r safonau bioddiogelwch a hylendid uchaf yn haid y rhieni, wrth drafod yr wyau, yn y ddeorfa ac wrth drafod a chludo'r cywion wedi hynny.
53. Gall rhai arferion rheoli ffrwyno neu leihau lefelau cloffni mewn haid. Un ffordd o leihau cloffni yw trwy gynyddu gweithgarwch yr adar yn y dydd a'u hannog i orffwyso yn y nos, er enghraifft trwy reoli patrymau goleuo (cynyddu'r golau yn y dydd a chyfnodau di-dor hirach o dywyllwch). Gellir cynyddu gweithgarwch hefyd trwy gyfoethogi'r amgylchedd a thrwy leihau'r dwysedd stocio.
54. Gall cloffni ddatblygu o ganlyniad i drosglwyddo heintiau o haid y rhieni neu'r ddeorfa. Dylid cadw at y safonau bioddiogelwch a hylendid uchaf yn haid y rhieni, wrth drafod yr wyau, yn y ddeorfa ac wrth drafod a chludo'r cywion wedi hynny. Dylai mesurau ac arferion hwsmona da ar y fferm fridio sicrhau nad oes fawr o wyau'n cael eu dodwy ar y llawr. Ni ddylech ddewis wyau brwnt/budr iawn fel wyau deor. Cyn ei roi mewn crat a'i lwytho, rhaid asesu ffitrwydd yr aderyn i deithio. Dylai'r ceidwad ystyried yn ofalus a yw adar cloff yn gyfreithiol ffit i deithio. Os nad ydyn nhw, dylen nhw gael eu difa heb greulondeb ar y fferm. Os oes cyflyrau difrifol neu boenus, fel plantar necrosis datblygedig, arnyn nhw, dydyn nhw ddim yn ffit i deithio. Ni ddylid cludo adar bychain neu denau iawn i ladd-dy. Dylid eu lladd ar y fferm.

Monitro iechyd a lles yn y lladd-dy

Mae Paragraffau 14-15 o Ran 3 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

14.–(1) At ddibenion Adran III (gwybodaeth y gadwyn fwyd) o Atodiad II i Reoliad 853/2004, caiff y gyfradd farwolaeth ddyddiol a'r gyfradd farwolaeth ddyddiol gronnus a chroesryw neu frîd yr ieir o haid gyda dwysedd stocio uwch na 33 cilogram i'r m² o'r lle y gellir ei ddefnyddio eu trin fel gwybodaeth iechyd bwyd berthnasol.⁶

(2) Rhaid i weithredydd busnes bwyd sy'n rhedeg lladd-dy–

(a) o dan arolygiaeth y milfeddyg swyddogol, gofnodi nifer yr ieir o haid o'r fath sy'n farw pan fyddant yn cyrraedd y lladd-dy; a

(b) rhoi'r wybodaeth honno i'r milfeddyg swyddogol os gofynnir amdani.

(3) Yn y paragraff hwn–

⁶Rheoliad 853/2004

ystyr "y gyfradd farwolaeth ddyddiol gronnus" ("*cumulative daily mortality rate*") yw cyfanswm y cyfraddau marwolaeth dyddiol.

ystyr "y gyfradd farwolaeth ddyddiol" ("*daily mortality rate*") yw nifer yr ieir mewn cwt sydd wedi marw ar yr un diwrnod gan gynnwys y rheini a gafodd eu difa naill ai oherwydd afiechyd neu am resymau eraill, wedi ei rannu wrth nifer yr ieir sydd yn y cwt ar y diwrnod hwnnw, a'i luosi wrth 100;

15.—(1) Rhaid i filfeddyg swyddogol sy'n cyflawni rheolaethau o dan Reoliad 854/2004 mewn cysylltiad ag ieir werthuso canlyniadau'r arolygiad post-mortem er mwyn canfod arwyddion posibl o amodau lles gwael ar eu daliad neu yn eu cwt gwreiddiol.⁷

(2) Os yw cyfradd marwolaeth yr ieir neu ganlyniadau'r arolygiad post-mortem yn gyson ag amodau lles anifeiliaid gwael, rhaid i'r milfeddyg swyddogol hysbysu'r data hwnnw i geidwad yr ieir hynny ac i Weinidogion Cymru yn ddi-oed.

55. Mae asesiad yn cael ei gynnal o bob iâr fwyta cyn ac ar ôl ei lladd. Ar gyfer ieir sydd wedi'u magu o dan system gonfensiynol, mae canlyniadau'r asesiad yn cael ei fwydo i'r 'system drothwy' (gweler Atodiad 2). Mae'r system drothwy'n pennu lefelau ar gyfer cyflyrau, gan gynnwys y nifer sy'n 'farw wrth gyrraedd' (DOA), y gyfradd farwolaeth ddyddiol gronnus a saith cyflwr arall. Bydd sgoriau uwch na'r trothwy yn esgor ar adroddiad sy'n cael ei anfon at y ceidwad ac i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Wedi cael adroddiad trothwy, dylai'r ceidwad weithredu'n gyflym i ymchwilio i'r problemau a nodwyd yn y lladd-dy a'u datrys i amddiffyn yr adar sydd ar ôl yn yr haid ac adar heidiau newydd. Bob blwyddyn, mae adroddiad trothwy'n cael ei baratoi ar ryw 4% o'r holl fatsys o ieir a fegir o dan system gonfensiynol sy'n cael eu prosesu gan ladd-dai ym Mhrydain. Am ragor o wybodaeth am y trothwy, ewch i Atodiad 2.
56. Rhaid i geidwaid sy'n cadw ieir bwyta o dan system gonfensiynol â dwysedd stocio o fwy na 33kg y m² o le y gellir ei ddefnyddio roi'r gyfradd farwolaeth gronnus ddyddiol ar gyfer pob cwt adar, a nodi'r hybrid neu'r brîd, yn yr adroddiad gwybodaeth am y gadwyn fwyd. Mae ceidwaid sy'n cadw ieir bwyta o dan system gonfensiynol yn cael eu hannog i ddarparu'r data hyn a dwysedd stocio'r adar adeg gwacau'r cwt, yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007.

Anffurfio

Mae Adran 5 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

(1) A person commits an offence if—

- (a) he carries out a prohibited procedure on a protected animal;
- (b) he causes such a procedure to be carried out on such an animal.

⁷ [Rheoliad 854/2004](#)

(2) A person commits an offence if—

- (a) he is responsible for an animal,
- (b) another person carries out a prohibited procedure on the animal, and
- (c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, .

(3) References in this section to the carrying out of a prohibited procedure on an animal are to the carrying out of a procedure which involves interference with the sensitive tissues or bone structure of the animal, otherwise than for the purpose of its medical treatment.

(4) Subsections (1) and (2) do not apply in such circumstances as the appropriate national authority may specify by regulations.

(5) Before making regulations under subsection (4), the appropriate national authority shall consult such persons appearing to the authority to represent any interests concerned as the authority considers appropriate.

57. Mae eu hanffurfio'n gallu achosi poen i ieir ac ni ddylid eu hanffurfio oni bai bod angen gwneud er mwyn osgoi canlyniad lles gwaeth. Rhaid ystyried ymyriadau posibl eraill yn gyntaf, ac ni ddylai fod yn arfer cyffredin.

58. Mae anffurfio ieir wedi'i wahardd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn eithrio rhai gweithdrefnau rhag y gwaharddiad, cyn belled â'u bod yn cael eu cynnal gan berson sydd â'r hawl i'w cynnal a:

- yn unol ag unrhyw ofyniad perthnasol yn Atodlenni 2 i 9 (o'r rheoliadau);
- mewn dull sy'n cadw lefel y boen a'r dioddefaint i'r anifail nir fach â phosib;
- o dan amodau hylan; ac
- yn unol ag arfer da.

Mae Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn ⁸ caniatáu i filfeddygon neu bersonau eraill a ganiateir i gynnal y gweithdrefnau o dan Ddeddf Milfeddygon 1966 neu Orchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 2015 i gynnal nifer o weithdrefnau a ganiateir ar ddofednod.

Tocio'r big

Mae Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Diogelu) (Cymru) 2007 , ar docio pigau dofednod, yn datgan:

⁸Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

5. Tocio pigau dofednod

- (1) Ar gyfer pob dofednyn, rhaid i'r driniaeth docio pigau gael ei rhoi gan ddefnyddio offeryn addas.
- (2) Ar gyfer pob dofednyn, rhaid atal unrhyw waedlif sy'n dod o'r big yn sgil hynny drwy ei serio.
- (3) Ar gyfer pob dofednyn, rhaid rhoi'r driniaeth a ganlyn—
- (a) y big uchaf a'r big isaf fel ei gilydd, heb fod mwy na thraean o bob un wedi ei dynnu, neu
 - (b) y big uchaf yn unig, heb fod mwy na thraean wedi ei dynnu.
- (4) Ar gyfer ieir dodwy a chywion y bwriedir iddynt ddod yn ieir dodwy, a gedwir mewn sefydliadau sydd â 350 neu fwy o adar o'r fath—
- (a) caniateir tocio pigau yn unig er mwyn atal pigo pluf neu ganibaliaeth;
 - (b) rhaid defnyddio technoleg is-goch;
 - (c) ni chaniateir tocio pigau adar sy'n 10 niwrnod oed neu drosodd; a
 - (ch) rhaid i'r driniaeth docio pigau gael ei rhoi gan berson a gafodd wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol fel ei fod yn gymwys i roi'r driniaeth.
- (5) Nid yw is-baragraffau (4)(b) ac (c) yn gymwys os rhoddir y driniaeth mewn argyfwng er mwyn rheoli brigiad o bigo pluf neu ganibaliaeth.
- (6) Ar gyfer ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol-
- (a) caniateir i'r driniaeth gael ei rhoi yn unig er mwyn atal pigo pluf a chanibaliaeth;
 - (b) ni chaniateir i'r driniaeth gael ei rhoi i adar sy'n 10 niwrnod oed neu drosodd;
 - (c) rhaid i'r driniaeth gael ei rhoi gan berson a gafodd wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol fel ei fod yn gymwys i roi'r driniaeth
 - (ch) rhaid i'r driniaeth gael ei rhoi yn unig ar ôl ymgynghori â milfeddyg a chael cyngor ganddo.

59. Ni ddylai bod angen tocio pigau ieir bwyta gan fod yr ieir fel arfer yn cael eu lladd cyn iddynt ddod yn rhywiol aeddfed. Dylid ystyried cyfoethogi'r amgylchedd cyn ystyried bod angen tocio pigau. Dylid asesu risg dulliau posib o gyfoethogi'r amgylchedd a dylid ymchwilio i unrhyw ddiffygion maeth fel achos posib i bigo sy'n achosi niwed.

Cytiau

Mae Paragraffau 11-12 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

11. Rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i

gyffyrddiad â hwy, beidio â bod yn niweidiol iddynt a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.

12. Rhaid i'r llety a'r ffitiadau a ddefnyddir i ddiogelu'r anifeiliaid fod wedi eu hadeiladu a'u cynnal fel nad oes unrhyw ymylon nac allwthiadau miniog sy'n debygol o achosi anaf i anifail.

60. Dylid holi barn arbenigwr cyn codi neu newid adeiladau ar gyfer cadw adar. Mae'n bwysig sicrhau bod y cytiau a'r offer yn addas i'w diben. Dim ond cytiau ac offer sydd wedi'u profi'n drylwyr ac na fydd yn peryglu iechyd a lles adar y cewch eu defnyddio. Wrth ddod ag offer newydd neu eildro i'r safle, dylai'r ceidwad wastad ystyried a oes perygl mawr cyflwyno a lledaenu clefydau rhwng cytiau neu rhwng ffermydd.

61. Wrth ddewis safleoedd i gadw ieir bwyta a bridio, dylid ystyried y risgiau o ffactorau amgylcheddol allanol fel sŵn, goleuni, cryndod, llygredd atmosfferig ac anifeiliaid rheibus. Lle gellir, dylid ceisio manteisio ar nodweddion naturiol i gynnig cysgod ac amddiffyniad rhag anifeiliaid rheibus a fermin.

Awyru a thymheredd

Mae Paragraffau 13 ac 18-21 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

13. Rhaid i gylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid.

18. Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.

19. Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.

20. Pan fydd iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial -

(a) rhaid darparu system briodol wrth gefn i warantu y gellir adnewyddu'r aer yn ddigonol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid pe digwyddai i'r system fethu; a

(b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

21. Rhaid i'r system wrth gefn y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm y cyfeirir ati ym mharagraff 20(b) gael ei profi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes

unrhyw ddiffyg ar y system, ac os canfyddir unrhyw ddiffyg ar unrhyw adeg, rhaid ei gywiro ar unwaith.

Mae Paragraff 8 o Ran 2 o Atodlen 5A o Reoliadau Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

8.–(1) Rhaid i'r gwyntyllu fod yn ddigonol i osgoi gorboethi.

(2) Rhaid i wyntyllu, o'i gyfuno â'r systemau awyru, fod yn ddigonol i gael gwared â gorleithder.

CONSULTATION

Ar gyfer adar sy'n cael eu cadw at ddwysedd stocio uwch (h.y. mwy na 33kg/m^2), mae paragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 5A Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan, yn ogystal â pharagraff 8 (1) a (2):

5. Gofynion y paragraff hwn yw bod rhaid i'r ceidwad—

(a) cynnal a chadw ac, os gofynnir iddo wneud hynny, peri bod dogfennau ar gael i Weinidogion Cymru yn y cwt yn disgrifio'n fanwl y systemau cynhyrchu, ac yn benodol yn rhoi gwybodaeth ar fanylion technegol y cwt a'r offer ynddo, gan gynnwys—

(i) plan o'r cwt gan gynnwys mesurau'r arwynebeddau y mae'r ieir yn eu meddiannu;

(ii) gwyntylliad ac unrhyw system oeri a chynhesu berthnasol (gan gynnwys eu lleoliad), a phlan gwyntyllu, sy'n dangos paramedrau ansawdd aer yr anelir atynt (megis y llif aer, cyflymder yr aer a thymheredd);

(iii) systemau bwydo a dyfrio (a'u lleoliadau);

(iv) systemau larwm ac wrth gefn os digwydd i unrhyw offer sy'n hanfodol er iechyd a lles yr ieir dorri i lawr;

(v) math y llawr a'r llaesodr a ddefnyddir fel rheol; a

(vi) cofnodion o archwiliadau technegol o'r systemau gwyntyllu a'r systemau larwm;

(b) peri bod y dogfennau y cyfeirir atynt yn isbaragraff (a) yn cael eu cadw'n gyfredol;

(c) sicrhau bod yna offer gwyntyllu ym mhob cwt ac, os oes angen, systemau gwresogi ac oeri sydd wedi'u dylunio, wedi'u hadeiladu ac yn cael eu gweithredu yn y fath fodd—

fel nad yw'r dwysedd o amonia yn uwch na 20 rhan i'r filiwn ac nad yw dwysedd y carbon deuocsid yn uwch na 3,000 rhan i'r filiwn wrth gael ei fesur ar lefel pennau'r ieir;

(ii) pan fo'r tymheredd y tu allan wrth gael ei fesur yn y cysgod yn uwch na 30°C , nad yw'r tymheredd y tu mewn yn uwch na'r tymheredd y tu allan o fwy na 3°C ; a

(iii) pan fo'r tymheredd y tu allan islaw 10°C , nad yw'r lleithder cymharol cyfartaleddig pan gaiff ei fesur y tu mewn i'r cwt yn ystod cyfnod parhaus o 48 awr yn uwch na 70%.

62. Dylai'r cyfraddau gwyntyllu, gwasgaru'r aer ac amodau'r cwt wastad fod yn foddhaol i ddarparu digon o aer glân i'r adar heb ddrafftiau, ac i gadw'r sarn yn sych a mân. Dylid monitro a rheoli ansawdd yr aer, gan gynnwys lefel y llwch a'r carbon monocsid, a'i gadw o fewn terfynau i ddiogelu lles yr adar.

63. Dylid osgoi eithafion gwres ac oerfel. Dylid amddiffyn yr adar rhag drafftiau oer. Dylai'r system wyntyllu fod yn briodol ar gyfer oed yr haid a'r math o haid.

64. Pan fyddan nhw'n cyrraedd, dylid rhoi cywion mewn cwt sydd wedi'i gynhesu neu gwb gori a monitro'u hymddygiad yn ofalus. Mae cywion ifanc yn hynod sensitif i eithafion gwres ac oerfel a bydd eu gweld wedi ymwasgaru'n gyfartal yn y cwt yn arwydd eu bod yn gynnes a chyfforddus. Wrth i adar dyfu'u plu eilaidd, byddan nhw'n gallu goddef amrywiaeth weddol eang o dymheredd ond dylid gwneud popeth i rwystro creu amodau a allai arwain at oeri, tyrru a mygu. Yn ogystal, cysylltir oerfel â thebygolrwydd uwch o fagu cyflyrau fel ascites.
65. Mae adar sydd ar borthiant cyfyngedig yn fwy sensitif i oerfel ond yn llai sensitif i wres. Os bydd y tymheredd yn gostwng, efallai y bydd angen rhoi mwy o fwyd neu ddarparu gwres.
66. Mewn cytiau nad ydyn nhw'n cael eu gwyntyllu'n dda ac sydd wedi'u stocio'n ddwysach, efallai y bydd angen gwres a mwy o wyntyllu i ostwng lefelau lleithder cymharol i lai na 70%.

Straen gwres

67. Ni ddylai adar, yn arbennig adar mewn cewyll, gael bod yn llygad haul cryf nac o dan amodau twym a llaith yn ddigon hir i beri straen gwres. Mae bod yn fyr o wynt am amser hir yn arwydd o straen gwres. Dylid rhoi sylw i lif yr aer, gwasgariad yr aer ac yn arbennig symudiad yr aer ar lefel yr adar yn ystod cyfnodau o dywydd twym.
68. Dylai ceidwaid gynllunio ar gyfer straen gwres. Ym misoedd yr haf, dylid ystyried gostwng y dwysedd stocio wrth archebu neu osod cywion diwrnod oed. Os gwelir eu bod yn dioddef neu'n marw, y person sy'n gyfrifol am yr adar fydd yn gorfod dangos bod y camau a gymerwyd yn addas i ddyluniad yr adeilad, ei leoliad a'r gwres/lleithder mwyaf a ragwelwyd ar y pryd.
69. Yn ystod cyfnodau twym a llaith, dylid archwilio'r adar yn amlach am arwyddion straen gwres, ond dylid peidio â tharfu'n ddiangen arnyn nhw.
70. Dylid cymryd camau i osgoi'r potensial am straen gwres trwy gynyddu'r gwyntyllu a chyflymu llif yr aer ar lefel yr adar. Gellid defnyddio gwyntyllau symudol wrth gefn i gynyddu'r gwyntyllu yn ystod cyfnodau twym a llaith. Gellid gostwng tymheredd yr aer mewn adeilad trwy wella'r inswleiddio a thrwy oeri'r aer sy'n llifo i mewn trwy anweddiad. Bydd angen gofalu rhag cyfuno gwres mawr a lleithder mawr. Dylid ystyried taenu dŵr oer ar do'r adeilad fel ateb olaf, a hynny dim ond os yw'r gwres a'r lleithder yn ormodol. Gellid gostwng y gwres a gynhyrchir gan yr adar eu hunain trwy ostwng y dwysedd stocio neu drwy newid y patrymau bwydo.

Cewch ragor o gyngor ar straen gwres yn Atodiad 2.

Gofynion gwyntyllu ychwanegol ieir a fegir yn gonfensiynol â dwysedd stocio o fwy na 33 kg/m²

71. Ar gyfer heidiau â dwysedd stocio o fwy na 33 kg/m², dylai'r system wyntyllu allu gwyntyllu'r aer ar gyflymder o 1m/eiliad dros gymaint o'r llawr â phosib mewn adeiladau â system awyru gonfensiynol. Mewn adeiladau â system wyntyllu twnnel, dylai allu gyrru'r aer ar gyflymder o o leiaf 2m/eiliad. Mewn adeiladau sydd â system awyru naturiol, dylai'r mewnfydd a'r allfeydd fod yn ddigon mawr i yrru llif aer mor gyflym â phosib dros yr adar. Gellid gosod gwyntyllau symudol i symud rhagor o'r aer ar lefel yr adar.

Golau

Mae Paragraffau 14-16 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

14. Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau beidio â chael eu cadw mewn tywyllwch parhaol.
15. Pan nad yw'r golau naturiol sydd ar gael mewn adeilad yn ddigonol i ddiwallu anghenion ffisiolegol ac etholegol unrhyw anifeiliaid a gedwir ynddo, rhaid darparu golau artiffisial priodol.
16. Rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys rhag olau artiffisial.

Mae Paragraff 10 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

- 10.—(1) Rhaid bod golau ym mhob cwt a'i ddwyster yn o leiaf 20 lux yn ystod y cyfnodau goleuo, o'i fesur ar lefel llygad yr adar ac sy'n goleuo o leiaf 80% o'r lle y gellir ei ddefnyddio.
- (2) Caniateir gostyngiad dros dro o'r lefel hwnnw o oleuo pan fo angen yn dilyn cyngor milfeddygol.
- (3) O fewn 7 diwrnod o'r adeg pan gaiff yr ieir eu rhoi yn y cwt a hyd 3 diwrnod cyn adeg ddisgwyliedig eu cigydda, rhaid i'r golau ddilyn rhythm 24 awr a rhaid iddo gynnwys cyfnodau o dywyllwch sy'n para am gyfanswm o o leiaf 6 awr, gydag o leiaf un cyfnod di-dor o dywyllwch o o leiaf 4 awr, heb gynnwys cyfnodau pylu.

72. Dylai ieir bwyta gael eu cadw mewn digon o oleuni iddyn nhw allu gweld yn glir ac i sbarduno gweithgarwch ynddyn nhw. I wneud hynny, bydd yn rhaid wrth system oleuo sydd wedi'i dylunio ac sy'n cael ei chynnal a'i gweithio i roi o leiaf 20 lux o oleuni ar lefel llygaid yr adar yn o leiaf 80% o'r cwt sy'n cael ei ddefnyddio. Os caiff y goleuadau eu gostwng wrth deneuo'r haid i gadw'r adar yn dawel, dylid eu codi eto i o leiaf 20 lux heb oedi os oes unrhyw adar ar ôl yn y cwt ar ôl teneuo'r haid. Trwy gynyddu'r golau'n raddol i efelychu'r wawr neu'r machlud, gellid o bosib lleihau'r risg o grafu cefnau. Os oes pryder y gallai cynyddu'r golau yn ôl i 20 lux

wneud drwg i les yr adar, caniateir ichi ostwng y goleuadau am gyfnod gan ddibynnu ar y sefyllfa ond dim ond ar ôl i filfeddyg ddweud y dylech wneud hynny.

73. Rhaid i ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol gael eu cadw mewn tywyllwch am o leiaf chwe awr ym mhob cyfnod o 24 awr gydag o leiaf un cyfnod o dywyllwch yn para o leiaf bedair awr, hynny heb gynnwys y cyfnod pan ostyngir y golau. Yn ddelfrydol, bydd y cyfnod o dywyllwch yn para am chwe awr di-dor mewn rhythm 24 awr. Dylai ceidwaid gofio y bydd cynnau'r golau ar ôl cyfnod y dywyllwch yn debygol o arwain at fywiogi'r haid a gallai hynny arwain at broblemau fel crafu cefnau. Bydd angen felly rhoi mwy o sylw i arferion rheoli i ddiogelu lles yr adar pan gaiff y golau ei gynnau. Er enghraifft, dylai fod yna ddigon o ddalwyr bwyd a dŵr i'r holl adar allu bwyta ac yfed yr un pryd ar ôl y cyfnod o orffwys. Bydd angen hefyd rhoi sylw i gyflwr y sarn, yn enwedig o dan linellau yfed teth a allai wlychu'r sarn oherwydd nifer yr adar sy'n yfed yr un pryd. Bryd hynny, dylech ystyried rhoi mwy o sarn ar lawr.
74. Trwy drefnu bod y golau'n gostwng ac yn cynyddu'n raddol i greu effaith 'gwawr a machlud', gallai hynny'ch helpu i reoli lefelau gweithgarwch eich adar. Byddai cwt sy'n caniatáu i adar weld goleuni naturiol yn sbarduno'r newid naturiol hwn a gallai'r sbectrwm goleuni naturiol gael effeithiau llesol ychwanegol ar ymddygiad yr adar, fel cynyddu lefelau gweithgarwch a gwella cyflwr y coesau yn ogystal â gwella ansawdd y sarn. Fodd bynnag, dylai fod ffordd i leihau'r goleuni naturiol os gallai goleuni cryf wneud drwg i les yr adar, er enghraifft, trwy eu hysgogi i grafu neu bigo gan achosi niwed, neu ar gyfer arferion rheoli penodol, er enghraifft, eu dal.

Sarn (Gwasarn/Llaesodr - litter)

Mae Rheoliad 5(1) o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod yn rhaid i berson sy'n gyfrifol am ddofednod (ac eithrio'r rheini a gedwir yn y systemau cyfeirir atynt yn Atodlenni 2 i 4) a gedwir mewn adeilad sicrhau y cânt eu cadw ar laesodr, neu y gallant bob amser fynd at laesodr sydd wedi ei gynnal yn dda, neu fan sydd wedi ei ddraenio'n dda ar gyfer gorffwys.

Mae Paragraff 7 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan bod yn rhaid i bob iâr fedru cael at laesodr bob amser sy'n sych ac yn hyfriu ar yr wyneb.

75. Mae ieir sy'n cael eu cadw dan do yn treulio'u bywydau ar sarn (gwasarn/llaesodr/litter) ac mae eu hiechyd a'u lles yn dibynnu ar ei ansawdd. Mae sarn o ansawdd gwael yn achosi cyflyrau fel pododermatitis, llosg cymal yr egwyd, dolur gwadn y droed a phothelli ar y frest. Mae offer sydd wedi'u dylunio'n dda a rheolaeth dda yn bwysig i gadw'r sarn mewn cyflwr da. Dylai'r system wyntyllu gadw'r sarn rhag gorgynhesu a'i gadw'n sych. Dylai'r bwyd fod yn gytbwys i osgoi

problemau â thail gwlyb neu ludiog. Dylech holi arbenigwr am ei gyngor a gweithredu arno a dylid gostwng y dwysedd stocio os bydd ansawdd gwael y sarn yn para.

76. Dylai'r deunydd a ddefnyddir fel sarn fod o ansawdd priodol. Dylai fod yn addas fel deunydd gorwedd sych ac ni ddylai unrhyw beth fod ynddo allai fod yn wenwynig neu'n niweidiol i'r adar.
77. Dylai'r sarn fod yn rhydd ac yn hyfriu (hawdd ei chwalu) ar yr wyneb a dylid rhoi mesurau ar waith i gadw gwiddon a llwydni draw. Dylid cadw golwg ar y sarn am arwyddion ei fod yn dirywio a dylid cymryd y camau priodol i unioni unrhyw broblem. Dylid archwilio'r sarn hefyd i sicrhau nad yw'n mynd yn rhy wlyb neu lychlyd. Dylech ddefnyddio system ddyfrio nad yw'n sarnu dŵr, fel tethi dŵr gyda chwpanau diferion ar uchder sy'n addas i'r holl adar. Cewch ddefnyddio tethi dŵr heb gwpanau os gallwch ofalu'n dda amdany'n nhw a'ch bod yn cadw golwg ar bwysedd y dŵr i wneud yn siŵr nad oes dŵr yn gollwng.

Dwysedd stocio a rhyddid i symud

Mae Paragraffau 9 a 10 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

9. Gan roi sylw i'w rhywogaeth ac yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol, rhaid peidio â chyfyngu ar ryddid anifeiliaid i symud mewn unrhyw ffordd a fydd yn peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

10. Pan fo anifeiliaid yn cael eu clymu neu eu caethiwo yn ddi-dor neu'n rheolaidd, rhaid caniatáu lle priodol iddynt ar gyfer eu hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol.

Mae Paragraffau 3 i 5 o Atodlen 5A, Rhan 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

3.–(1) Oni fo is-baragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r dwysedd stocio beidio â bod yn uwch na 33 cilogram i'r m² o'r lle y gellir ei ddefnyddio.

(2) Caniateir dwysedd stocio uwch na 33 cilogram a hyd at 39 cilogram i'r m² o'r lle y gellir ei ddefnyddio os cydymffurfir â gofynion paragraff 5.

4.–(1) Rhaid i geidwad sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu o'r dwysedd stocio arfaethedig ar gyfer pob cwt y bwriedir cadw ieir ynddo ar ddwysedd uwch na 33 cilogram i'r m² o'r lle y gellir ei ddefnyddio, ac o unrhyw newid diweddarach i'r dwysedd hysbysedig hwnnw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad fod yn y cyfryw ddull a ffurf ag y dichon fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid rhoi hysbysiad (gan gynnwys hysbysiad o unrhyw newid) o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn bod stocio ar y dwysedd hwnnw neu ddwysedd wedi newid yn digwydd.

(4) Yn y paragraff hwn ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sydd yn ŵyl y Banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(2).

5. Gofynion y paragraff hwn yw bod rhaid i'r ceidwad—

(a) cynnal a chadw ac, os gofynnir iddo wneud hynny, peri bod dogfennau ar gael i Weinidogion Cymru yn y cwt yn disgrifio'n fanwl y systemau cynhyrchu, ac yn benodol yn rhoi gwybodaeth ar fanylion technegol y cwt a'r offer ynddo, gan gynnwys—

(i) plan o'r cwt gan gynnwys mesurau'r arwynebeddau y mae'r ieir yn eu meddiannu;

(ii) gwyntylliad ac unrhyw system oeri a chynhesu berthnasol (gan gynnwys eu lleoliad), a phlan gwyntyllu, sy'n dangos paramedrau ansawdd aer yr anelir atynt (megis y llif aer, cyflymder yr aer a thymheredd);

(iii) systemau bwydo a dyfrio (a'u lleoliadau);

(iv) systemau larwm ac wrth gefn os digwydd i unrhyw offer sy'n hanfodol er iechyd a lles yr ieir dorri i lawr;

(v) math y llawr a'r llaesodr a ddefnyddir fel rheol; a

(vi) cofnodion o archwiliadau technegol o'r systemau gwyntyllu a'r systemau larwm;

(b) peri bod y dogfennau y cyfeirir atynt yn isbaragraff (a) yn cael eu cadw'n gyfredol;

(c) sicrhau bod yna offer gwyntyllu ym mhob cwt ac, os oes angen, systemau gwresogi ac oeri sydd wedi'u dylunio, wedi'u hadeiladu ac yn cael eu gweithredu yn y fath fodd—

(i) fel nad yw'r dwysedd o amonia yn uwch na 20 rhan i'r filiwn ac nad yw dwysedd y carbon deuocsid yn uwch na 3,000 rhan i'r filiwn wrth gael ei fesur ar lefel pennau'r ieir;

(ii) pan fo'r tymheredd y tu allan wrth gael ei fesur yn y cysgod yn uwch na 30°C, nad yw'r tymheredd y tu mewn yn uwch na'r tymheredd y tu allan o fwy na 3°C; a

(iii) pan fo'r tymheredd y tu allan islaw 10°C, nad yw'r lleithder cymharol cyfartaleddig pan gaiff ei fesur y tu mewn i'r cwt yn ystod cyfnod parhaus o 48 awr yn uwch na 70%.

78. Mae angen ystyried nifer o ffactorau i hyrwyddo lles yr adar wrth benderfynu ar ddwysedd stocio a'i fonitro. Mae cadw at ddwysedd stocio penodol yn bwysig ond nid yw ynddo'i hun yn diogelu lles yr adar. Mae perthynas agos rhwng crefft ffermio da byw, cyflwr y sarn, rheoli'r amgylchedd a dwysedd stocio. I gadw'r ieir mewn cyflwr da, rhaid bod y cydbwysedd yn iawn a chyfrifoldeb y cynhyrchydd yw profi nad yw lles yr adar yn dioddef, pa beth bynnag y dwysedd stocio.

79. Dylid penderfynu ar y dwysedd stocio ar sail y cwt a ddefnyddir a dylid ystyried y ffactorau sy'n benodol i'r cwt hwnnw. Mae nifer o ffactorau rheoli ddylai dylanwadu ar benderfyniad y ceidwad wrth ddewis dwysedd stocio penodol. Yn eu plith y mae iechyd a lles heidiau blaenorol, adroddiadau'r lladd-dy, a chyfyngiadau'r mesurau rheoli amgylcheddol yn y cwt, all amrywio yn ôl y tymor a'r tywydd. Er mwyn cadw mwy na 33kg/m² o ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, rhaid cadw at y ffactorau ychwanegol a nodir yn y ddeddfwriaeth.
80. Waeth pa system a ddefnyddir, dylai fod gan yr ieir ddigon o le i allu sefyll yn normal, troi o gwmpas ac ymestyn eu hadenydd, a hynny yn ddiraffferth. Dylai fod ganddyn nhw ddigon o le hefyd i allu eistedd heb i adar eraill ymyrryd â nhw.
81. Dylech leihau'r dwysedd stocio a holi barn arbenigwr os gwelwch broblemau, yn enwedig gwres neu leithder mawr oherwydd diffyg gwyntyllu neu ansawdd gwael y sarn. Os cewch glefyd neu broblemau amgylcheddol mewn adeilad neu system benodol, gallai lleihau'r dwysedd stocio mewn heidiau sy'n dilyn leihau'r posibilrwydd y gallai'r problemau hyn godi eto. Dylech ystyried lleihau'r dwysedd stocio ymlaen llaw os rhagwelir tywydd twym.
82. Mae teneuo'r haid yn achosi stres i'r adar a dylech ei osgoi. Os oes yn rhaid gwneud, dylech ofalu'ch bod yn cynnal bioddiogelwch a'ch bod yn aflonyddu cyn lleied ag y medrwyd ar yr adar. Ni fyddwch wedi rhoi bwyd na diod iddyn nhw am gyfnod. Dylech ysgrifennu protocol i nodi'r hyn y dylech ei wneud rhag effeithio ar yr adar a pheryglu'r bioddiogelwch, gan gynnwys y risg o ddod â milhaint i'r haid, a'r trefniadau i leihau effaith peidio â bwydo a dyfrio'r adar.
83. Ar gyfer ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, rhoddwyd gwybod i Weinidogion Cymru o'r dwysedd stocio a fwriadwyd ar gyfer pob cwt yn 2010 trwy ffurflen a anfonwyd gan APHA at bawb sy'n cadw ieir. Os ydy'r ceidwad yn newid dwysedd stocio'r adar a fegir mewn cwt o'r hyn a nodwyd yn 2010 neu'n adeiladu cwt newydd, rhaid rhoi gwybod i APHA cyn pen 15 niwrnod gwaith cyn cyflwyno'r adar. Gwnewch hynny gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 2.

Cyfoethogi'r Amgylchedd

84. Gall cyfoethogi'r amgylchedd trwy roi mwy o ddewis o weithgareddau i'r adar fod o fudd i iechyd a lles yr adar trwy leihau pigo niweidiol ac ymddygiad ymosodol rhwng adar.
85. Trwy roi bêls gwellt, clwydi, bariwns isel a phethau fel bresych, grawn wedi'u gwasgaru a bêls o naddion i'w pigo, byddwch hefyd yn gwella iechyd eu coesau trwy gael yr adar i sefyll, cerdded a rhedeg fwy a'u cael ei dreulio llai o amser yn eistedd a gorffwys.
86. Mae'n haws cyfoethogi'r amgylchedd mewn rhai systemau nag eraill.

Offer awtomataidd neu fecanyddol

Mae Paragraffau 18 i 21 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

18. Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.

19. Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro, gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.

20. Pan fydd iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial -

(a) rhaid darparu system briodol wrth gefn i warantu y gellir adnewyddu'r aer yn ddigonol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid pe digwyddai i'r system fethu; a

(b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

21. Rhaid i'r system wrth gefn y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm y cyfeirir ati ym mharagraff 20(b) gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg ar y system, ac os canfyddir unrhyw ddiffyg ar unrhyw adeg, rhaid ei gywiro ar unwaith.

Mae Paragraff 9 o Atodlen 5A o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan. ym mhob cwt:

(a) rhaid i lefel y sŵn fod ar ei isaf posibl; a

(b) rhaid i ffaniau gwyntyllu, peirianwaith bwydo neu beirianwaith arall fod wedi eu hadeiladu a'u lleoli, ac yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw yn y fath fodd fel eu bod yn peri cyn lleied o sŵn ag sy'n bosibl.

87. Dylai'r holl offer a gwasanaethau, gan gynnwys hopranau bwyd, terydr bwydo, systemau cadwyni bwydo, dalwyr ddŵr, offer awyru, unedau gwresogi a goleuo, diffoddyddion tân a systemau larwm gael eu glanhau a'u harchwilio'n rheolaidd, a'u cadw mewn cyflwr da. Dylai generaduron neu systemau ynni wrth gefn eraill fod ar gael a dylid eu profi a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd.
88. Dylai'r offer awyru, gwresogi, goleuo, bwydo, dyfrio a'r holl offer arall gael eu dylunio, eu lleoli a'u gosod fel nad oes perygl iddyn nhw anafu'r adar.
89. Rhaid i'r holl offer awtomataidd y mae lles yr adar yn dibynnu arnyn nhw ymgorffori dyfais na fydd yn methu a system larwm i rybuddio'r ceidwad os oes rhywbeth yn bod. Dylai diffygion gael eu cywiro ar unwaith neu dylid rhoi mesurau eraill ar waith i ddiogelu iechyd a lles yr adar. Gan hynny, dylai dulliau eraill o fwydo'r adar ac o gadw amgylchedd boddhaol fod yn barod i'w defnyddio.

Cynlluniau Wrth Gefn

90. Dylid rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith ar ôl asesu'r peryglon posib. Dylai cynlluniau wrth gefn ddelio â digwyddiadau fel toriad yn y cyflenwad bwyd neu'r cyflenwad ynni neu ddŵr; trychinebau naturiol fel llifogydd a thanau; trefniadau i ddelio â'r cyfyngiadau pan geir clefyd hysbysadwy, gan gynnwys delio ag oedi cyn cael anfon adar i'w lladd a chadw adar buarth dan do am gyfnod. Dylai'r cynlluniau gynnwys trefniadau hefyd ar gyfer lladd adar a chael gwared ar adar os bydd yn rhaid gwacáu cwt oherwydd clefyd hysbysadwy neu am fod gwenwyn wedi llygru'r bwyd neu'r borfa.
91. Os oes angen cloi adeiladau, dylech wneud trefniadau i ganiatáu pobl i allu mynd atynt yn gyflym os ceir argyfwng.

Argymhellion Ychwanegol ar gyfer Systemau Buarth (Maes)

Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru)2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan pan na chedwir anifeiliaid mewn adeiladau, rhaid eu hamddiffyn pan fo angen a phan fo'n bosibl rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd, a rhaid iddynt gael cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

Dylai ceidwaid dofednod gyfeirio hefyd at Safonau Marchnata'r UE ar gyfer cig dofednod, Rheoliad y Comisiwn (EEC) rhif 543/2008⁹ ynghylch dwysedd stocio, gofynion bwydo, rhyddid i grwydro ac oedran lleiaf wrth ladd.

92. Mae ffactorau megis y math o bridd, y draeniad, maint yr haid a pha mor aml y mae'r haid yn cael ei chylchdroi yn bwysig iawn wrth benderfynu ar faint o adar y gall man benodol ei gynnal. Gall pridd trwm nad yw'n draenio'n dda gynnal llai o adar na thir ysgafn sy'n draenio'n dda.
93. Mae tir y mae ieir buarth wedi bod arno am amser hir yn gallu troi'n 'sâl' h.y. wedi'i halogi gan organebau sy'n achosi neu'n cario clefydau a allai beryglu iechyd yr adar ar y tir. Dylid monitro'r adar yn rheolaidd i weld a oes arwyddion bod pathogenau wedi crynhoi yn y tir. Mae'r amser y mae tir yn ei gymryd i fynd yn sâl yn dibynnu ar y math o dir a'r dwysedd stocio. Bydd angen rhoi mesurau priodol ar waith i rwystro'r tir rhag mynd yn sâl neu ddarparu tir crwydro newydd trwy symud y cwt (yn achos unedau cludadwy) neu drwy gylchdroi'r tir crwydro y tu allan i adeiladau sefydlog.
94. Dylai fod gan yr adar ddigon o le dan do bob amser ac efallai y bydd angen cadw'r ieir o'r tir crwydro pan y gallai tywydd cas beryglu'u lles.
95. Dylid annog yr adar i fynd i'r awyr agored trwy ddarparu llystyfiant digonol ac addas sydd wedi'i reoli'n briodol, cysgod uwch ben i ffurfio coridorau allan o'r cwt ac o gwmpas y tir crwydro a chyflenwad o ddŵr ffres o'r cwt, er mwyn denu'r ieir i grwydro. Ni ddylid rhoi bwyd ategol allan yn y tir crwydro rhag denu adar gwyllt, llygod ac anifeiliaid eraill i'r haid. Os oes pyllau dŵr ger y tir crwydro, codwch ffens o'u hamgylch neu netin drostyn nhw i gadw adar gwyllt, yn enwedig hwyaid a gwyddau, rhag glanio.

⁹ Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 543/2008

Argymhellion Ychwanegol ar gyfer Ieir Bridio a 'Thad-cuod/Mam-guod'

96. Mae adar bridio'n cael eu magu am deithi penodol e.e. cynhyrchu wyau wedi'u ffrwythloni neu gynhyrchu cig. O ganlyniad, mae angen gofal gwahanol arny'n nhw o'u cymharu â'u cywion. Rhaid felly wrth grefft ffermio da byw a chytiau ac offer o safon uchel a rheolaeth dda ar yr amgylchedd.

Bwydo a dyfrio

97. Wrth fagu a rheoli ieir bridio, mae angen sicrhau'r cydbwysedd cywir o fwyd priodol a goleuni yn y cyfnod glasod ac yn y cyfnod dodwy, fel bod yr ieir yn tyfu fel y dylent ac yn dodwy'n hir. Yn y cyfnod magu, dylid cadw at gromlin twf y brîd y bydd y cyflenwr wedi'i ddangos ichi. Wrth eu magu, dylid eu bwydo'n ofalus rhag eu gorfwydo ac achosi gordewdra a chynnydd yn y marwolaethau a pheryglu iechyd, lles a chynhyrchiant.
98. Os cyfyngir yn ormodol ar faint y caiff yr iâr ei fwyta, bydd yn debygol o ddiodef stres a newyn. Bydd angen taro'r cydbwysedd rhwng rheoli faint y caiff ei fwyta a faint a'r math o fwyd sydd ei angen arni i dyfu er mwyn iddi fod ar ei gorau wrth ddod i lawndwf.
99. Rhaid cynnig bwyd i'r adar o leiaf unwaith bob dydd gydol y cylch cynhyrchu ac eithrio ar ddiwrnod eu cludo gan y bydd y daith yn fwy cyfforddus iddyn nhw os bydd eu crombil yn wag. Dylid rhoi mwy o fwyd i adar bridio ar y diwrnod cyn y daith a dylai dŵr fod ar gael iddyn nhw hyd at amser eu dal.
100. Dylech roi sylw manwl i sicrhau nad yw'r adar yn cystadlu â'i gilydd a'u bod i gyd yn cael swm priodol o fwyd. Dylai'r offer bwydo allu cyflenwi symiau bach o fwyd yn gyflym, yn gywir ac yn gyfartal i'r holl adar a dylai'r cafn bwydo fod yn ddigon mawr i'r oll adar allu cael at y bwyd yn foddhaol. Dylai'r bwyd fod yn solid e.e. pelets caled. Mae gwasgaru'r bwyd yn arwain at lai o ymddygiad afleoledig ac at fwy o loffa am fwyd. Os ydych am wasgaru'r bwyd, gofalu eich bod yn ei daflu dros ardal ddigon mawr er mwyn i'r holl adar allu bwydo.
101. Yn ogystal â'r archwiliadau cyffredin dyddiol, dylech fonitro pwysau a chyflwr yr adar yn systematig bob wythnos o leiaf. Dylech newid ac addasu'n gyflym y swm o fwyd a roddir yn ôl yr hyn a welwch.
102. Rhaid monitro a rheoli ansawdd y bwyd a roddir. Byddai'n syniad da edrych ar gynnwys maeth y bwyd i wneud yn siwr fod ynddo'r cynhwysion cywir, yn enwedig os ceir problemau. Dylai ceidwaid fod yn neilltuol o wylidwrus wrth newid batsys bwyd.
103. Yn ystod chwe wythnos gyntaf eu bywyd, dylai'r bwyd fod yn ddigonol i sicrhau datblygiad sgerbwdd da. Dylid rheoli'r swm sy'n cael ei fwyta gydol y cyfnod magu er mwyn sicrhau cyfradd dwf ddyddiol reolaidd na ddylai fod yn llai na'r hyn a argymhellir yn llawlyfr y bridwyr.

104. Os na fydd iâr yn cael digon i'w fwyta, gall yfed mwy a dangos ymddygiad adleoedig fel pigo (e.e. ar y daliwr bwyd gwag a'r wal ac ar smotiau). Gall rhoi gormod o ddŵr iddi wneud drwg i ansawdd y sarn. Trwy gynyddu'r ffeibr yn y bwyd, bydd angen rhagor o amser ar yr adar i'w fwyta ac efallai o'r herwydd y bydd angen llai i'w yfed arnyn nhw, gan wella cyflwr y sarn.
105. Mae'n bosib y bydd angen rheoli'r cyflenwad dŵr i gyd-fynd â'r system a'r rhaglen fwydo er mwyn eu rhwystro rhag yfed gormod a difetha'r sarn. Er hynny, rhaid sicrhau bod yna ddŵr yfed ar gael bob dydd. Os cyfyngir ar yr amser yfed, rhaid gofalu bod digonedd o ddalwyr dŵr a bod digon o lif ohonyn nhw i'r holl adar allu yfed heb ormod o gystadlu.
106. Yn ystod y cyfnod dodwy, mae gan geiliogod ac ieir anghenion maeth gwahanol a gellid eu bwydo'n wahanol er eu bod yn yr un cwt. Mae'n bwysig addasu'r offer a ddefnyddir i rwystro ceiliogod rhag bwyta bwyd yr ieir er mwyn sicrhau bod yr ieir yn gallu cael at y bwyd yn hawdd ac nad yw'r ceiliogod yn cael eu hanafu. Fodd bynnag, o dan rai systemau ac yn ystod rhai cyfnodau yng nghylch yr haid, mae angen i'r ieir a'r ceiliogod gael eu bwydo â'r un faint o fwyd gyda'i gilydd, felly efallai bod mantais tynnu'r offer gwahardd ceiliogod o systemau bwydo'r ieir. Peidiwch ag annog adar bridio i fwrw'u pluf trwy atal bwyd a dŵr, yn unol â Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig a Cyfarwyddebau diwygio 64/432/EEC a 93/119/EC a Rheoliad (EC) rhif 1255/97 Pennod V paragraff 2.

Ymosodedd, Pigo Niweidiol a Chyfoethogi'r Amgylchedd

107. Mae cyfoethogi'r amgylchedd, er enghraifft trwy ddarparu bêls caeedig o naddion a gwellt o ansawdd da, grawn cyfan bioddiogel neu bethau eraill i annog yr ieir i grafu a phigo'r llawr, yn gallu helpu i'w cadw rhag pigo'i gilydd yn y cyfnod magu ac effeithio'n ddrwg ar eu lles. Gyda goleuni naturiol, gall y cyfan annog gweithgarwch sy'n dda i goesau'r ieir.
108. I gyfoethogi'r amgylchedd, dylid cynnig symiau penodol o grit (naill ai wedi'i wasgaru ar y sarn neu ei roi mewn cafnau ar wahân) pan fydd yr ieir yn 6 wythnos oed. Bydd y grit yn helpu'r iâr i dreulio unrhyw sam neu blu y gallai fod wedi'u bwyta a'i hannog i grafu'r llawr. Mantais arall lloffa fel hyn yw ei fod yn gwella ansawdd y sam.
109. Gallai clwydi addas yn y cwt magu gyfoethogi'r amgylchedd a helpu'r adar i gynnal ymddygiadau naturiol eraill. Bydd y clwydi hefyd yn helpu'r adar i addasu o fyw ar sarn i fyw ar loriau tyllod wedi'u codi yn eu cyfnod dodwy.

Anffurfio - Tocio Pigau

110. Nid oes angen tocio pigau adar bridio benyw a chywion benyw o linach fel arfer. Ar gyfer adar bridio gwryw a chywion gwryw o linach, efallai y bydd angen tocio pigau rhag iddyn nhw anafu adar trwy bigo ymosodol neu niweidiol. Os felly, dim ond blaen y big ddylai gael ei thocio. Dylid gwneud hyn cyn eu bod yn 10 niwrnod oed gan ddefnyddio technoleg is-goch. Ni ddylech docio pigau adar hyn ond mewn argyfwng ac ar gyngor milfeddyg.

Adeiladau a Chytiau

111. Dylid magu adar bridio a thad-cuod/mam-guod mewn cytiau lle mae'r tymheredd, lleithder, lefel y gwyntyllu, goleuadau a cyfnodau o oleuni naturiol wedi'u rheoli'n ofalus. Bydd cwt da wedi'i inswleiddio, ei amddiffyn rhag golau a bydd ynddo system awyru a system oleuo gyson y bydd modd eu rheoli.
112. Bydd gofyn i'r lefelau gwyntyllu, gwasgaru aer a'r amodau i gyd fod yn briodol bob amser i sicrhau bod digon o aer glân sy'n addas i oed yr adar, heb ddrafftiau. Dylid cadw ansawdd yr aer, gan gynnwys llwch a charbon monocsid, o dan reolaeth ac o fewn terfynau rhag gwneud drwg i les yr adar.
113. Dylid holi arbenigwyr a'r cwmnïau sy'n gwerthu'r stoc bridio faint o oleuni a goleuni naturiol a argymhellir ar gyfer adar bridio a thad-cuod/mam-guod.
114. Os gwelwch yr adar yn pigo'n niweidiol neu'n ymosodol, yna holwch farn arbenigwr.
115. Dylid rhoi sylw gofalus i'r gymhareb rhwng ceiliogod ac ieir i sicrhau'r berthynas orau bosib rhwng y gwrywod a'r benywod a rhag i ieir ymosod ar geiliogod ifanc, neu i amddiffyn ieir rhag ceiliogod rhy aeddfed yn y cwt bridio. Lle ceir problemau ymosod, dylech ystyried codi rhwystrau ar hyd y darn sydd o dan sarn yn y cwt bridio. Bydd hynny'n gwneud yr ieir yn hapusach trwy roi lle iddyn nhw ddianc rhag y ceiliogod.
116. Yn y gaeaf, gall fod yn anodd cynnal y tymheredd priodol yn y cwt bridio. Gallai ansawdd yr aer a'r sarn ddirywio gan arwain at broblemau anadlu a phroblemau yn y goes a gwadnau'r traed. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd angen gwres ychwanegol.

Dwysedd stocio a rhyddid i symud

117. Ni ddylai fod gennych ddwysedd stocio o fwy na 28kg/m^2 o adar bridio. Cyfrifir hyn trwy rannu cyfanswm pwysau'r holl adar (ceiliogod ac ieir) yn y cwt â'r arwynebedd sydd ar gael i'r adar.

GWEITHDREFNAU BRIDIO

Mae Paragraffau 28 a 29 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

(28).-(1) Rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint minimal neu fyrhoedlog, neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn achosi anaf parhaol.

29. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles.

118. Dylai'ch adar fod yn ffrwyth rhaglenni bridio cytbwys, sy'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng amcanion iechyd, lles a chynhyrchiant.

119. Rydym yn annog tagio adar, er mwyn gallu olrhain gwybodaeth yn y dyfodol o fewn y pyramid bridio a bridio i hyrwyddo lles, ar sail data o'r gadwyn gyflenwi. Y ffordd orau o leihau problemau lles yw magu adar sydd â llai o broblemau lles.

120. Dylai mesurau ac arferion hwsmona ar y safle bridio arwain at lai o wyau'n cael eu dodwy ar lawr ac at lai o wyau brwnt/budr. Peidiwch ag anfon wyau o'r fath i'r ddeorfa. Mae'n well gan ieir bridio nythod wedi'u gwneud o sarn a gallech leihau nifer yr wyau ar lawr trwy roi peth sarn yn y nythod, beth bynnag yw eu sylfaen (metel, pren, mat rwber).

Cael Gwared ar Gywion ac Embryonau Dros Ben yng Ngwastraff y Ddeorfa

Mae Paragraff 44 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014, ar gywion diangen yng ngwastraff y ddeorfa, yn datgan:¹⁰

44.—(1) Ni chaiff neb ladd cywion dros ben sy'n iau na 72 awr oed mewn gwastraff deorfa, ac eithrio drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol—

(a) malu yn unol â Thabl 1 o Bennod I a Phennod II o Atodiad I;

(b) drwy ddod â'r cywion i gysylltiad â chymysgedd nwyon yn unol â Thabl 3 o Bennod I a Phennod II o Atodiad I a'r paragraff hwn; neu

(c) pan nad oes dull arall ar gael i'w lladd, ysigo gyddfau yn unol â Thabl 1 o Bennod I a Phennod II o Atodiad I.

(2) Ni chaiff neb ladd cywion dros ben sy'n iau na 72 awr oed mewn gwastraff deorfa drwy ddod â'r cywion i gysylltiad â chymysgedd nwyon oni roddir y cywion yn y cymysgedd nwyon a'u bod yn aros yn y cymysgedd nwyon nes byddant farw.

(3) Rhaid lladd cywion dros ben sy'n iau na 72 awr oed mewn gwastraff deorfa mor gyflym ag y bo modd.

¹⁰ [Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd \(Cymru\) 2014](#)

121. Dylai cywion ac embryonau dros ben wastad gael eu lladd heb greulondeb gan person sydd wedi'i hyfforddi ac yn gymwys yn unol â'r gofynion lles adeg eu lladd, gan ddefnyddio nwy i ladd neu ddull malu cyflym sydd wedi'i ddylunio at y pwrpas.
122. Rhaid peidio â lladd embryonau yn eu masgl â chymysgedd nwyon gan ei bod yn anodd iawn crynhoi digon o nwy i ladd embryonau mewn masgl. Wrth ddefnyddio carbon deuocsid neu gymysgedd nwyon i ladd cywion dros ben, dylai'r lladdwr wneud yn siŵr bod yr holl adar wedi marw. Wrth ddefnyddio unrhyw rai o'r cymysgeddau nwyon a ganiateir, mae'n hanfodol eich bod yn monitro lefel pob nwy a'i chynnal gan y gall gormod o ocsigen wneud y system yn llai effeithiol ac y gall yr adar gymryd mwy o amser i farw ac mae perygl y gallen nhw ddadebru. Ni ddylai cymaint o adar gael dod ynghyd fel eu bod yn cael eu gwasgu neu eu mygu wrth ddod i gysylltiad â'r cymysgedd nwyon. Am ragor o wybodaeth, gweler Cod Ymarfer Gwaredu Cywion mewn Deorfeydd yr Humane Slaughter Association.

CONSULTATION

Deddfwriaeth ac Argymhellion Eraill sy'n Effeithio ar Ieir Bwyta, Adar Bridio a Deorfeydd

Rydym wedi crynhoi'r prif ofynion isod. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a dylech nodi bod rhai deddfau'n cael eu diweddarau a/neu eu diwygio'n rheolaidd. I weld holl ddeddfwriaeth y DU, ewch i: <http://www.y.deddfwriaeth.gov.uk>

Cyngor Ewrop

Mae'r Cod hwn yn ystyried argymhellion Cyngor Ewrop ynghylch yr iâr ddomestig (*Gallus gallus*).¹¹ Maen nhw'n pennu egwyddorion cyffredinol hwsmonaeth a gofal ac yn cynnwys adran am ieir bwyta.

Trafnidiaeth

Gweler Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 (amddiffyn anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiol),¹² Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007 a chanllawiau cysylltiol^{13,14} ynghylch cludo ieir bwyta.

Lladd

Gweler Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1099/2009 (amddiffyn anifeiliaid adeg eu lladd)¹⁵, a deddfwriaeth ddomestig gysylltiol a chanllawiau ynghylch lles anifeiliaid adeg eu lladd a lladd ieir bwyta.

Mae gan yr Humane Slaughter Association God Ymarfer ar gyfer Gwaredu Cywion mewn Deorfeydd¹⁶.

Systemau buarth ac organig

Gweler Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 543/2008¹⁷ am y meini prawf ar gyfer cig dofednod (e.e. gofynion ar gyfer defnyddio termau marchnata arbennig fel 'buarth/free range') gan gynnwys dwysedd stocio, gofynion bwydo, cyfleoedd i grwydro a'r oed lleiaf adeg eu lladd. Caiff gofynion yr UE eu rhoi ar waith yng Nghymru gan Reoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011¹⁸. Ceir darpariaethau gwahanol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

11 <https://rm.coe.int/CoERMPublicCommonSearchServices/DisplayDCTMContent?documentId=09000016805165ec>

12 <http://extwprlegs1.fao.org/docs/pdf/eur69655.pdf>

13 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/517/contents/made>

14 <https://www.gov.uk/guidance/farm-animal-welfare-during-transportation>

15 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325000/regulation_1099_2009_en.pdf

16 <http://www.hsa.org.uk/shop/publications-1/product/code-of-practice-for-the-disposal-of-chicks-in-hatcheries>

17 <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2008:157:0046:0087:EN:PDF>

18 <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2011/452/contents/made>

Gweler Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 834/2007¹⁹ a Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 889/2008²⁰ am gynhyrchu organig. Caiff gofynion yr UE eu rhoi ar waith yn y DU gan Reoliadau Cynhyrchion Organig 2009²¹.

Hylendid bwyd

Gweler Rheoliad (EC) 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor²² am reolau penodol ynghylch hylendid bwyd. Mae Adran III o Atodlen II o'r Rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr busnesau bwyd sy'n rhedeg lladd-dai, yn ôl y gofyn, i ofyn am yr wybodaeth am y gadwyn fwyd a nodir yn yr Adran hon, derbyn ac archwilio'r wybodaeth honno a gweithredu arni, hynny mewn cysylltiad ag unrhyw anifail, heblaw cig gwyllt, a anfonir neu y bwriedir ei anfon i'r lladd-dy.

Is-gynhyrchion anifeiliaid

Gweler Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1069/2009 a Rheoliad y Comisiwn (EU) rhif 142/2011²³²⁴ am ofynion yr UE ar gyfer storio, cludo a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel carcasau marw, tail a sarn.

Caiff gofynion yr UE eu rhoi ar waith gan Reoliad sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014²⁵.

Am ragor o wybodaeth am sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gweler:

<https://www.gov.uk/guidance/animal-by-product-categories-site-approval-hygiene-and-disposal>

19 <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2007:189:0001:0023:EN:PDF>

20 <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2008:250:0001:0084:EN:PDF>

21 http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2009/842/pdfs/ukxi_20090842_en.pdf

22 <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:139:0055:0205:EN:PDF>

23 <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2009:300:0001:0033:EN:PDF>

24 <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2011:054:0001:0254:EN:PDF>

25 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/517/contents/made>

Arweiniad a Chadw Cofnodion

Cofrestr Dofednod Prydain Fawr

<https://www.gov.uk/guidance/poultry-registration>

<http://gov.wales/docs/drah/publications/130404-gb-poultry-register-form-cy.pdf>

Adroddiadau Trothwy Ieir Bwyta

Bob blwyddyn, mae adroddiad trothwy'n cael ei baratoi ar ryw 4% o'r holl fatsys o ieir a fegir o dan system gonfensiynol sy'n cael eu prosesu gan ladd-dai ym Mhrydain.

Tabl 1: Trothwyon Proses 1. Caiff adroddiad trothwy ei baratoi os yw lefel y cyflwr yn neilltuol o uchel ar ôl lladd yr adar (sef mwy na 6 gwyrriad safonol yn uwch na'r cyfartaledd).

Cyflwr ar ôl lladd	Trothwy Adroddiad Proses 1 (%)
Ascites/Oedema	2.02
Llid yr Isgroen a Dermatitis	3.00
Yn cyrraedd yn farw (DOA)	1.51
Tenau iawn	0.67
Clwyfau ar y cymalau	0.43
Septisemia/Respiradol	9.28
Cyfanswm wedi'u gwrthod	11.76
Cyfradd Farwolaeth Gronnus Ddyddiol	11.85
Sgôr Dolur Gwadn y Droed (FPD)*	167

Tabl 2: Trothwyon Proses 2. Caiff adroddiad trothwy ei baratoi os bydd y Gyfradd Farwolaeth Gronnus Ddyddiol yn anarferol o uchel (sef 3 gwyrriad safonol yn uwch na'r cyfartaledd = 7.73%) a hefyd, bod lefel tri neu fwy o gyflyrau eraill ar ôl lladd yn uchel (sef yn uwch na'r cyfartaledd).

Cyflwr ar ôl lladd	Trothwy Adroddiad Proses 2 (%)
Ascites/Oedema	0.21
Llid yr Isgroen a Dermatitis	0.20
Yn cyrraedd yn farw (DOA)	0.12

Tenau iawn	0.04
Clwyfau ar y cymalau	0.02
Septisemia/Respiradol	0.49
Cyfanswm wedi'u gwrthod	1.11
Sgôr Dolur Gwadn y Droed (FPD)*	60

*Nid canran mo'r sgôr FPD ond mesur o ddifrifoldeb a maint y clwyfau (rhwng 0 a 200), yn seiliedig ar sgorio 100 o draed.

Cynllun Iechyd Fferm

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy>

Cyngor ar Gofrestrau Dofednod

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/livestockwelfare/poultry/broiler-chickens/training/?skip=1&lang=cy>

Stres Gwres

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69373/pb10543-heat-stress-050330.pdf

Dwysedd Stocio

Ffurflen i'w hanfon at yr APHA i roi gwybod iddyn nhw'ch bod wedi newid dwysedd stocio'ch haid ieir bwyta o dan system gonfensiynol. Cewch gopi o ffurflen WF90 - hysbysu am newid yn nwysedd stocio ieir bwyta - ar wefan GOV.UK ar y ddolen hon: <https://www.gov.uk/government/publications/meat-chicken-notification>

Hyfforddiant

Mae'r cynllun Hyfforddiant Dofednod Prydain sy'n cael ei weinyddu gan Poultec a'i gydnabod gan BPC, NFU a Defra, yn enghraifft o gynllun sy'n bodloni gofynion Atodiad IV Cyfarwyddeb y Cyngor 2007/43/EC i ateb y gofyn am hyfforddiant ar gyfer ceidwaid ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol yn Lloegr. Efallai bod darparwyr eraill allai ateb y gofynion hyn.

Cewch fwy o wybodaeth am gynllun Poultec yn www.poultrypassport.org.

CONSULTATION